# Y TINCER

PRIS £1.00

Rhif 324

Rhagfyr 2009

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH


# PRIODASAU'R TYMOR

Dydd Sadwrn, Medi 26ain, cynhaliwyd priodas Iwan Hywel, mab Hywel a Bethan Williams o Langernyw ger Llanrwst ag Ellen Davies, merch Mair a'r diweddar Henry Davies, Meurig Cottage, Penrhyn-coch yng Nghapel Shiloh, Tre-garth ger Bethesda. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams a'r Parchedig R.O. Jones gyda Lowri Evans yn cyfeilio ar y piano a Wyn Williams ar yr organ. Cafwyd darlleniad gan Mared Llwyd a pherfformiad o'r gân 'Hi yw fy ffrind' gan y pedwarawd Gwenno Ifan, Lowri Evans, Dewi Snelson a Rhys Evans. Cynhaliwyd y wledd yn Neuadd Hendre, Tal-y-bont ger Bangor. Mae'r pâr bellach wedi ymgartrefu gydag Idwal y ci yng Nghre-garth ger Bethesda. Yn y llun gwelwn y ddau efo Idwal y ci.



Yng nghapel Noddfa, Bow Street yn ystod yr haf priodwyd Guto Malgwyn, mab Gwyneth a Malcolm Hunkin, Bryncastell, ac Adriana Parra Paez o Bogota, Colombia. Cynhaliwyd gwasanaeth tairieithog gan y gweinidog, y Parchg Richard Lewis, a'r organydd oedd Mr Maldwyn James. Y gwas priodas oedd Garmon Rhys, Paula Gallo Marin oedd y forwyn briodas, a'r forwyn fach oedd Lily-May, nith Guto. Cynhaliwyd y wledd briodas yng Nghlwb Golff Capel Bangor, a threuliwyd rhan o'r mis mel yn ardal y Fawddach. Treulir y gweddill yn Bogota dros y Nadolig.



Yn ddiweddar yng Nghapel Madog, priodwyd Sioned Elen, merch Alwyn a Margaret Hughes, Gellinebwen, Capel Madog, a Llywelyn Gwynfil, mab Dafydd Gwyn Evans a Rhiannon Evans, Tregaron.

Gwasanaethwyd gan y Parchg Wyn Morris a'r Parchg Robert Jones. Y gwas priodas oedd Mark Ellis-Jones a'r morwynion oedd Anwen a Mared Hughes (chwiorydd y briodferch) a Rhian Jacques (ffrind). Gwenno Ellis-Jones oedd y forwyn flodau.

Cafwyd darlleniadau gan Gwern Evans a Mererid James. Yr unawdydd oedd Peter Leggett a'r organyddes oedd Angharad Rowlands.

Treuliwyd y mis mêl ym Mauritius a Gwlad yr Ia.



# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 324 | Rhagfyr 2009

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG



**SWYDDOGION**

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**STORI FLAEN** - Alun Jones
Gwyddfor ☎ 828465

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Mrs Llinos Dafis, Cedrwydd, Llandre ☎ 828262

**IS-GADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Paul Bevan, Felin Ddewi, 4 Glan-ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820 583
bevan.paul@gmail.com

**TREFNYDD Y CYFEILLION** - Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**GOHEBYDDION LLEOL**

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Alwen Griffiths, Lluest Fach ☎ 880335
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD IONAWR 7 a IONAWR 8 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI IONAWR 21

**RHAGFYR 17** Nos Iau Plygain yn Eglwys Sant Ioan am 7.30

**RHAGFYR 18** Bore Gwener Oedfa Ysgol Penweddig ym Methel, Aberystwyth am 10.30

**RHAGFYR 18** Dydd Gwener Ysgolion Ceredigion yn cau

**RHAGFYR 20** Nos Sul Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor am 6.00

**RHAGFYR 21** Nos Lun Gyrfa chwist dofednod yn Neuadd y Penrhyn,Penrhyn-coch am 7.30

## 2010

**IONAWR 5** Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn agor ar ôl gwyliau'r Nadolig

**IONAWR 11** Nos Lun 'Lluniau hanes John Thomas' Iwan M. Jones Merched y Wawr Rhydypennau

**IONAWR 13** Nos Fercher Phil Davies, Tal-y-bont yn siarad yn Festri Gerlan am 7.30 o'r gloch. Cymdeithas Gymraeg y Borth. Croeso cynnes i bawb.

**IONAWR 15** Nos Wener 'Fy newis i' gyda Mathew Clubb, Rhodri Morgan a Geraint Williams. Cymdeithas Lenyddol y Garn

**IONAWR 20** Nos Fercher Iwan Meical Jones 'Hen ffordd Gymreig o fyw' trwy ffotograffau John Thomas Cymdeithas y Penrhyn yn festri Horeb am 7.30

**IONAWR 29** Nos Wener Cwis blynyddol Pwyllgor Neuadd Rhydypennau yn y Neuadd

## EISTEDDFODAU'R URDD

**MAWRTH 2** Pnawn Mawrth Eisteddfod Ddawns yr Urdd cylch Aberystwyth yng Nghanolfan y Celfyddydau am 4.00.

**MAWRTH 3** Pnawn Mercher Eisteddfod offerynnol yr Urdd Cylch Aberystwyth yn Ysgol Gynradd Comins-coch am 1.30

**MAWRTH 4** Dydd Iau Rhagbrofion Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgolion Penweddig, Plas-crug a'r Ysgol Gymraeg o 9.15 ymlaen

**MAWRTH 4** Prynhawn Iau Eisteddfod uwchradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penweddig am 1.30

**MAWRTH 5** Dydd Gwener Eisteddfod Gynradd yr Urdd cylch Aberystwyth yn Ysgol Gyfun Penglais am 4.00

**MAWRTH 13** Dydd Sadwrn Eisteddfod cynradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 9.00

**MAWRTH 17** Bore Mercher Eisteddfod Ddawns Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 10.30

**MAWRTH 17** Nos Fercher Eisteddfod Rhanbarth Ceredigion Aelwydydd yr Urdd ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid am 6.00.

**MAWRTH 19** Dydd Gwener Eisteddfod Uwchradd yr Urdd Rhanbarth Ceredigion ym Mhafiliwn Pontrhydfendigaid o 9.00 y b

## CYFEILLION Y TINCER

**Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion Y Tincer mis Tachwedd 2009.**

**£25 (Rhif 152) Lleucu Sion, Tyddyn Llwyn, Llandre.**
**£15 (Rhif 54) John Ivor Jones, 4 Maes Y Felin, Penrhyn-coch.**
**£10 (Rhif 162) David James, Dolhuan, Llandre.**

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan Eleri Roberts, hyfforddwraig Côr Cantre'r Gwaelod yn dilyn ymarfer nos Sul Tachwedd 22ain.
Os am fod yn Gyfaill cysyllter â'r Trefnydd Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street
Am restr o gyfeillion gweler http://www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

**Y Tincer drwy'r post** - Pris 10 rhifyn - £9 (£19 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â Haydn Foulkes, 7 Maesyrefail, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3HE. ☎ 01970 828 889

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

# Carol Nadolig

Gwyn yw'r ewyn ar y glannau,
Gwyn yw blodau'r pren afalau,
Tecach gwyn y golau cannaid
Sydd ar wyneb Mair Fendigaid.

Glas yw lliw y môr a'i donnau,
Glas yw brodwaith yr wybrennau,
Mwynach glas y llygaid dwysaf
Sydd yn gwylio'i baban cyntaf.

Euraid ydyw tonnau'r cnydau
Pan fo medi'n lliwio'r caeau,
Tlysach aur y gwellt sathredig
A gysgododd Faban unig.

Tlws yw lliwiau'r wawr ddydd tawel
Staen y porffor gwrid y cwrel,
Tlysach fyth i fyd annedwydd
Doriad gwawr y gobaith newydd.

Gwenith Davies (o T. J. Davies
*Gwneith Gwasg John Penry, 1975*)

## CYFARCHION Y NADOLIG

Nadolig llawen a blwyddyn newydd dda i gyfeillion a darllenwyr y Tincer. Eleni byddaf yn cyfrannu arian i'r elusen GISDA (Grŵp Sengl Di-gartref Arfon) yn lle gyrru cardiau Nadolig.

Ceris Gruffudd
(Golygydd)

## TREFNIADAU CASGLU SBWRIEL DOS Y NADOLIG

Bydd sbwriel yn cael ei gasglu fel arfer yng Ngheredigion ar ddyddiau Llun, Mawrth, Mercher a Iau dros y Gwyliau. Daw y faniau ar ddydd Sadwrn i gasglu y rhai sydd yn arfer cael eu casglu ar ddydd Gwener. Hyn ar Ragfyr 26 ac Ionawr 2il.

# 30 Mlynedd 'Nôl



Y swyddogion yng Nghartref Tregerddan ar ddiwrnod agoriad swyddogol y Cartref. Y Cyng J.O.Morgan, Y Cyngh Nicholls, Y Cyng J.O. Williams, Cadeirydd Cyngor Sir Dyfed, Mr M. Thomas, Pensaer, Mrs Mair Parffit, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngh R. Wynn-Cowell. Llun: Bill Evans. (*Tincer* Rhagfyr 1979)



"Pa fodd y cwympodd y cedyrn?" Dymchwel wal fawr Gogerddan. Llun: Hugh Jones

Gyda thristwch dymchwelwyd yn ddiweddar enghraifft o adeiladwaith godidog y bedwaredd ganrif ar bymtheg, sef rhan o'r mur neu'r wal, fel y gelwir, sydd yn amgylchynu'r tir oedd un amser yn fyw o ddynion yn gweithio yn yr hen ardd, Plas Gogerddan.

Adeiladwyd y wal yn 1875 gan Mr Daniel Hamer, saer maen ar stad Gogerddan am dros hanner can mlynedd. Yr oedd yn dad-cu i Miss F Hamer, Pembroke House, Penrhyn-coch, mae ganddi hi hefyd y "plan" gwreiddiol yn ei meddiant a wnaed gan John Boyd.

Erbyn heddiw mae'r tir yn cynnwys adeiladau a lawntiau'r Fridfa Gymreig. Dywedwyd iddi gael ei thynnu i lawr er diogelwch trafnidiaeth - rheswm digonol yn yr oes hon. Ar nodyn mwy llawen, mae'r adeilad newydd yn edrych yn urddasol, wrth edrych arno dros y wal fach. (*Tincer* Rhagfyr 1979)

## Aelodau "OS MÊTS" yn mwynhau amrywiaeth o brofiadau

Mae aelodau "Os Mêts" wedi mwynhau profi nifer o wahanol weithgareddau yn ddiweddar.

Aeth criw niferus i Llain ger Llanarth yn ystod yr hanner tymor a chawsant fwynhad arbennig wrth herio sawl gweithgaredd awyr agored. Trefnwyd yr ymweliad gan Ceri Williams a'r Parchg Judith Morris. Gwefreiddiwyd y gynulleidfa a ddaeth ynghyd yn Nhal-y-bont, gydag aelodau o "Os Mêts" yn eu plith, gan gyflwyniad bywiog "Arad Goch" yn seiliedig ar helyntion Twm Siôn Cati. Diolchir i Falyri Jenkins am y trefniadau.

Yna, canol fis Tachwedd, cafwyd noson brysur o "Hwyl a Sbri" dan arweiniad Eleri Jones. Mae Eleri'n fyfyrwraig ym Mhrifysgol Aberystwyth ac fe dreuliodd y flwyddyn flaenorol yng Ngholeg y Bala. Y Parchg Wyn Morris a drefnodd y gweithgaredd.

Nos Iau Rhagfyr 3ydd daeth nifer i Dal-y-bont i fwynhau noson amserol "Carol a cherdyn" gyda Falyri Jenkins, Ruth Jên, Mair Nutting a Helen Jones.

I gloi tymor prysur ac amrywiol bydd aelodau "Os Mêts", fel rhan o'u gweithgarwch dyngarol, yn cynnal noson o ganu carolau yn Afallen Deg nos Fercher Rhagfyr 16eg.


Bydd cyfle i ailafael yn yr hwyl a'r gymdeithas yn y Flwyddyn Newydd. Croesewir aelodau newydd bob amser.

Hoffai
Berwyn Lewis
Pant-glas, Y Borth
ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i'w ffrindiau a darllenwyr y Tincer.

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd
pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn
CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

Cronfa Eleri
Blwyddyn 2009 – dros £13,800 i'w rannu
Gwahoddir ceisiadau am gymorth i gynlluniau sy'n cydnaws ag amcanion y Gronfa



Ffurflen gais ar gael oddiwrth: Ysgrifennydd Cronfa Eleri
Garreg Wen
Tal-y-bont
Ceredigion SY24 5HJ
Tel: 01970 832551 e-bost: iolo.apgwynn@tiscali.co.uk
Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Ionawr 16eg 2010
Amcanion Cronfa Eleri
'Hybu bywyd cymdeithasol, addysgol a diwylliannol cynhenid yr ardal sydd wedi ei chanoli ar Mynydd Gorddu'

# Y BORTH

### Llongyfarchiadau

Croeso i 'r byd i Grace, merch newydd i Jonathon 'Tegid' Thomas a Kim, Athlone (It's a Gift).

### Gwellhad buan

Dymunwn wellhad llwyr a buan i Dr. Aileen Smith, 1 Beach Cottage, sydd wedi bod yn ysbyty Singleton, Abertawe yn cael llawdriniaeth yn ddiweddar. Edrychwn ymlaen yn fawr i'w chael yn ôl yn holliach yn y dyfodol agos iawn.

Deallwn fod Mrs. Eileen Morris, Belair, wedi cael anaf i'w phen-glin yn ddiweddar- gobeithiwn y caiff wellhad cyn bo hir.

### Clwb pêl-droed Borth United



Aeth wyth mlynedd heibio ers i ni weld clwb pêl—droed yn y Borth. Ar yr adeg honno, er mawr siom i aelodau'r pwyllgor, doedd dim digon o ddiddordeb gan y chwaraewyr lleol i chwarae dros y pentref ac roedd yn anodd iawn dod o hyd i reolwr i redeg y tîm. Bellach mae'n bleser gennym adrodd fod Clwb Pêl-droed Borth United wedi ei ail sefydlu. Trefnwyd noson agored yn Neuadd y Pentref ar nos Fercher Mai 13 i weld a oedd digon o ddiddordeb i ail ddechrau'r clwb lleol. Roedd yn bleser gweld tua 40 o bobl yn y cyfarfod. Roeddent yn llawn brwdfrydedd ac am weld y Clwb yn cael ei ail sefydlu. Enwebwyd pwyllgor ar y noson honno a chynhaliwyd noson cyfarfod cyntaf Pwyllgor newydd Clwb Pêl-droed Borth United ar y nos Fercher ganlynol pan etholwyd y swyddogion yn ffurfiol. Mae trefniadau bellach ar y gweill i'r clwb gael ei dderbyn i ail adran Cynghrair Cambrian Tyres, Aberystwyth.

Bu'r Pwyllgor yn hynod brysur yn gwneud eu gorau glas i baratoi'r cae mewn pryd ar gyfer y tymor newydd, yn ogystal â threfnu gweithgareddau codi arian er mwyn gosod y Clwb ar seiliau ariannol cadarn. Cawsant gyfraniadau hael iawn gan unigolion a mudiadau yn yr ardal a maent yn ddiolchgar iawn amdanynt. C'mon Y Borth!

### Cymdeithas Gymraeg Y Borth a'r Cylch

Cyfarfu'r Gymdeithas Gymraeg yn Festri Capel y Gerlan, nos Fercher, 11 Rhagfyr. Y Cadeirydd oedd y Parchg Wyn Morris.

Siaradwr y noson oedd Mr John Morris, Llanrhystud, a gyflwynwyd gan y Parchg Wyn Morris fel amaethwr blaengar a hanesydd lleol adnabyddus. Ei bwnc oedd John Brown, Llanrhystud, neu "John Legonna" fel y'i gelwid yn gyffredinol, ar ôl y pentref yng Nghernyw lle cafodd ei eni a'i fagu. Cymeriad diddorol oedd John Legonna, yn ddyn brwdfrydig, egnïol a galluog ond rywsut yn aflonydd ac yn anfodlon gyda'i fyd. Daeth o gartref tlawd, ond cael ei anfon, yn llanc ifanc, at berthnasau yng Nghaernarfon i hyfforddi'n gyfreithiwr. Yn awyddus, yn ei ugeiniau cynnar, i ddod yn Aelod Seneddol, yr oedd yn Sosialydd brwd hyd at gychwyn y Rhyfel Cartref yn Sbaen, pan gafodd ei siomi yn agwedd negyddol y Blaid Lafur ac fe ddaeth yn gefnogwr Plaid Cymru o dan ddylanwad Saunders-Lewis ac arweinwyr eraill y Blaid. Ym 1939 yr oedd yn Llundain pan, ar fympwy, ar ôl darllen y Welsh Gazette, fe benderfynodd brynu ffarm yng Ngheredigion. Daeth i Lanrhystud yng nghwmni Saunders-Lewis a Moses Griffith a phrynu'r ffarm Penlan Mabws, gan ychwanegu'n hwyrach y ffermydd cyfagos, Penrhos Fach a Phenrhos Fawr. Ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, fe gafodd ddirwy o £5 gan Ynadon Aberystwyth am ddangos diffyg parch tuag at yr Anthem "God Save the King", gan gael ei gaethiwo, wedyn, yng Ngwersyll Prestatyn am wrthod ymuno â'r Lluoedd Arfog. Ar ôl y Rhyfel, fe aeth am flwyddyn i Goleg Harlech ac am flwyddyn arall i Brifysgol Rhydychen i astudio'r gyfraith; yn Rhydychen fe ddaeth yn aelod o Gymdeithas Dafydd ap Gwilym ar yr un pryd a Havard Gregory a Gareth Alban Davies. Gan flino ar ffermio, fe werthodd Penlan Mabws a Phenrhos Fawr, a dychwelyd i Lundain i gadw gwesty. Bu farw ym 1978 yn 60 oed, ond fe adawodd Benrhos Fach a 61 o erwau, yn ei ewyllys, i'r Llyfrgell Genedlaethol: ers hynny, bu'r ffarm o dan reolaeth Prifysgol Aberystwyth a rhan o incwm y ffarm yn mynd, bob pum mlynedd, at Ysgoloriaeth Ymchwil Geltaidd Legonna. Claddwyd ei ludw, yn ôl ei ewyllys, o fewn cylch yr hen Gastell Cadwaladr, ar dir Penrhos, er mawr ddryswch i Gomisiwn Brenhinol Henebion yng Nghymru. Dyn dadleuol i'r diwedd oedd John Legonna.

Diolchwyd i Mr John Morris gan Y Parchg Elwyn Pryse ar ddiwedd noson ddiddorol dros ben.

### Eglwys Sant Mathew

**Sêl Ben y Bwrdd**
Codwyd dros £100 er budd Eglwys Sant Mathew o ganlyniad i Sêl Ben

## Dysgwr y mis

- Beth yw eich enw? Teresa Walters
- Faint yw eich oed? Mwy na 21!
- Beth yw eich gwaith? Rydw i wedi bod yn gweithio efo Ecodyfi — cwmni datblygu cynaliadwy ers 2001, ond byddaf yn symud yn y flwyddyn newydd i Abertawe i ddechrau swydd newydd efo prosiect pobl ifanc 'Down to Earth'.
- Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg? 20 mlynedd (rydw i'n ddysgwr araf iawn!!)
- Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg? Mewn dosbarth yn Ysgol Craig yr Wylfa, yn y Brifysgol yn Aberystwyth, yn y Tabernacl ym Machynlleth, ysgolion haf a 'dosbarthiadau' sgwrsio anffurfiol efo ffrindiau.
- O le ydych chi'n dod yn wreiddiol? Swydd Rhydychen, Lloegr
- Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg? Penderfynais i fy mod i eisiau siarad Cymraeg efo fy nghymdogion a ffrindiau Cymraeg! A dechreuais i dddysgu efo ein plant ni, pan roedden nhw dechrau Ysgol Feithrin ac Ysgol Craig yr Wylfa yn y Borth.
- Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg? Rydw i'n siarad Cymraeg yn fy ngwaith — mae Ecodyfi yn gyfundrefn gymunedol dwyieithog — ac efo ffrindiau. Mae pawb wedi bod yn gefnogol iawn, yn siarad yn araf ac yn syml! Ond eto, rydwi'n ffiendio ei fod yn anodd iawn i glywed dechrau brawddegau. Ai cwestiwn sydd wedi cael ei ofyn? Amdanon ni, neu amdanon nhw? Gorffennol, neu ddyfodol? Ayb! Weithiau, mae fy atebion mor araf fel bod fy ffrind yn dechrau siarad yn Saesneg. Ond mae gen i eirfa eitha mawr — achos rydw i'n ysgrifennu llawer o bethau yn Gymraeg (efo help Geiriadur Mawr a safle we BBC!)



Cyfarfod Cyhoeddus- Cynllun Amddiffyn Arfordir y Borth

Ar noson stormus ar y 3ydd o Ragfyr, wynebodd llu o drigolion res faith o swyddogion yn neuadd y pentre. Cafwyd tair awr o drafod y morglawdd newydd. Trafodwyd hir hanes y cynllun-yr arbrofion diri, budd i'r syrffwyr, budd i'r economi leol, yr effaith ar yr amgylchedd a'r sachau tywod tanddwr, hynod a.y.y.b.. Byrdwn y cyfan oedd bod na frys mawr i gwblhau y gwaith erbyn diwedd yr haf nesaf oherwydd amodau grantiau o 7 miliwn. Cysur oedd clywed fod yr hen goedwig , sydd yn ein cysylltu â chwedl Cantre'r Gwaelod yn mynd i fod yn ddiogel.

Wedi'r manylu gan y llu arbenigwyr, cafodd y pentrefwyr eu cyfle i holi'n frwd. Rhai cwestiynau'n ddoethach nag eraill, ond roeddent i gyd yn deillio o gonsyrn didwyll am ddyfodol y gymuned. Edrychwn ymlaen yn eiddgar at y gwanwyn i weld y gwaith yn cychwyn- o'r diwedd.

Rhaid cofio bod Defi Jones yn gyfaill da pan fo'r haul yn gwenu ond pan yw'r llanw'n uchel a chorwynt o'r de orllewin, mae'n elyn dychrynllyd.

# Ar gof a chadw

**Gair o ffarwel oddi wrth dalgylch *Y Tincer*. I'r Athro Desmond a Mrs Nansi Hayes**



**Cof -** Pe bai'n ofynnol disgrifio Nansi mewn un gair, mae'n debyg mai 'cof' fyddai'r gair hwnnw. Gair addas, o gofio mai ar lwyfan Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn y 1950au, yn fuddugwraig cystadleuaeth lefaru (neu 'Adrodd' yn y dyddiau hynny) y daeth Nansi i sylw'r genedl gyfan, yn 'Eistedd-FWD' Ystradgynlais.

Erys y cof amdani hefyd yn athrawes frwdfrydig, dros hanner canrif yn ôl, yn Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Ymhlith y disgyblion bychain a fu'n eistedd, yn llythrennol, wrth ei thraed roedd yr Athro Ceri Davies, a ddaeth maes o law yn Athro'r Clasuron a Hanes yr Henfyd ym Mhrifysgol Cymru Abertawe, ac ymhlith yr ieuangaf o dîm cyfieithu'r Beibl Cymraeg Newydd, yn aelod o Banel y Testament Newydd adeg dathlu Pedwar-Canmlwyddiant Beibl yr Esgob William Morgan, yn 1988.

Mae dylanwad cynnar Nansi ar gof a chadw, yn drysoredig gan edmygwyr a disgyblion lu.

**Cadw** - Cadw a thrysori oedd ar flaen meddwl y Desmond Hayes ifanc yntau, pan lwyddodd i berswadio Nansi i'w briodi, union hanner canrif yn ôl. Ychydig yn ddiweddarach, (47 mlynedd yn ôl, a bod yn fanwl gywir) daeth y pâr ifanc i'r Borth.

Sefydlwyd eu cartref hyfryd yn Dunstall, a osodwyd yn gadarn ar graig — Craig yr Wylfa, Y Borth.

Yno y magwyd teulu afiaethus — Sharon, John, Mike a Tim — sydd bellach wedi ymhelaethu i gynnwys pedwar o blant-yng-nghyfraith hoff — Pete, Beth, Haf a Rebecca — a'r saith o wyrion — Carys, Dafydd, Mari, Cai, Beca, Marged, Ffred — heb anghofio'r ddau fychan hir-ddisgwyliedig sydd i ymddangos yn fuan ("wotsh ddus sbês!").

**Ar gof a chadw -** Byddai ceisio tynnu llinyn mesur dros gyfraniad Des a Nansi i dalgylch *Y Tincer*, a hu hwnt, ers eu dyddiau cynnar yn yr ardal, yn llanw cyfrolau o'r Papur Bro a fu mor agos at eu calonnau ers ei ddechreuad.

Llafuriodd Nansi gyda chyfres o gydweithwyr — Tegwen Pryse, Thelma Lloyd, Eurgain Rowlands, Elizabeth Evans yn eu plith — i lunio'r hyn a elwid ar un adeg 'Y Borth Colour Supplement', ar gyfrif swm, manylder, a chywirdeb ei gynnwys.

Yn ddi-ffael, cofiai Nansi ddyddiadau, achau, enwau, pen-blwyddi, tripiau, cymdeithasau a digwyddiadau lu, gan lwyddo i ysgafnhau'r cwbwl drwy ymdrechu i gael ffotograffau addas ar gyfer bob rhifyn.

Bu cyfraniad Des yntau i oroesiad y Papur Bro yn amhrisiadwy — y cludo a'r cario a'r mân ddyletswyddau, megis cefnogi'r ffeiriau codi arian, a chwrdd yn fisol i blygu'r Papur Bro yn y dyddiau cyn-dechnoleg.

Yn y colofnau hyn, mae diolch ardal gyfan yn eco dros faes a bryn i Des a Nansi am gyd-ysgwyddo baich cenhedlaeth sydd wedi ymlafnio i gadw Papur Bro *Y Tincer* yn fyw. Ni ellir gorddweud pa mor bwysig fu cyfraniad y Papur hwn, fel pob Papur Bro arall, i ffyniant a pharhad yr iaith Gymraeg. I bobl fel Des a Nansi y mae'r diolch, a'u cyfraniad ar gof a chadw tra bydd yr iaith Gymraeg yn fyw.

Wedi dweud hynny, un elfen fechan fu eu gwaith ar y cyd yn cefnogi'r *Tincer*.

Daeth yr Athro Desmond Hayes yn enw blaenllaw ym myd Amaeth yng Nghymru a thu hwnt, yn bersonoliaeth amlwg ar faes y Sioe Amaethyddol yn Llanelwedd.

Yn rhinwedd ei swydd, a hefyd oherwydd ei ddiddordeb ysol mewn pobol, gwnaeth gyfraniadau gwerthfawr i ddatblygiad a pharhad Coleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth, yn enwedig ymhlith myfyrwyr tramor a chyn-fyfyrwyr.

Cysylltir enw Nansi Hayes â myrdd o sefydliadau'r ardal, yn enwedig unrhyw achos a fodolai i gynnal a chadw'r diwylliant Cymreig a'r iaith Gymraeg, gan gynnwys Merched y Wawr, Mudiad Ysgolion Meithrin, Urdd Gobaith Cymru, ac Ysgol Gyfun

Penweddig, lle derbyniodd plant Dunstall eu haddysg gynnar.

Yn fwyaf arbennig, trysorir y cof am eu llafur cariad yn eglwysi'r Borth.

Er i Nansi gael ei magu'n eglwyswraig, llwyddodd Des i'w darbwyllo i ymuno â rhengoedd yr Annibynwyr Cymraeg, a bu'r teulu oll yn asgwrn cefn i Eglwys Annibynnol y Morfa yn y Borth.

Pan gaewyd y capel hwnnw, Des a fu'n fwyaf gweithgar, gyda'r diweddar John Lloyd, yn llunio cytundeb cyfreithiol pwysig — hanesyddol yn wir — rhwng enwad yr Annibynwyr ac enwad y Presbyteriaid yn y Borth. Drwy'r cytundeb hwnnw, daeth cynulleidfa i fod sydd wedi cydaddoli am yn agos i ugain mlynedd yng nghapel Y Gerlan, gan sicrhau bod addoldy Cymraeg yn para â'i ddrws yn agored yn y pentre.

Bu Des a Nansi yn gefn i bob agwedd o gynnal y gynulleidfa honno, nid yn unig drwy fod yn gyd-Ysgrifenyddion yr Annibynwyr, ond hefyd mewn digwyddiadau eciwmenaidd megis Cymorth Cristnogol a Dydd Gweddi Gwragedd y Byd.

Ni ellid gwell ffrindiau na Des a Nansi i weinidogion a phregethwyr a swyddogion sydd wedi cadw'r lamp ynghynn mewn dyddiau anodd ar lawer ystyr.

Faint bynnag fydd y golled i'r Papur Bro, i'r Coleg, ac i lu o achosion teilwng yn y dalgylch, mae'n bosibl mai yn y capel a'r gymdogaeth o amgylch y teimlir colli Des a Nansi fwyaf.

Mae'r ddau wedi bod yn driw i'w Harglwydd, ac wedi rhoi hyd eithaf eu nerth a'u gallu i gynrychioli gwerthoedd Cristnogol yn eu cymuned, nid lleiaf yn y cartrefi hynny lle mae ' Pryd ar Glud' yn gwneud cymaint o wahaniaeth i ansawdd bywyd unigolion diymgeledd.

Ac fel cymdogion cymwynasgar o'r iawn ryw, mae cyfeillgarwch Des a Nansi yn ddiarhebol. Bu tân croesawgar yn gwresogi pobol o bedwar ban byd ar aelwyd Dunstall, ond ni fydd neb yn gweld eisiau'r gwres hwnnw'n fwy na thrigolion y pentref sydd wedi bod ar eu hennill o gael Des a Nansi yn ffrindiau.

Mae'n bur debyg na fyddai'r bardd yn gwarafun benthyg, er mwyn ceisio talu teyrnged o waelod calon,

'Aelwyd Dunstall, ys tywell heno,
Heb dân, heb wely,
Wylaf wers, tawaf wedy...

... ond ar gof a chadw, erys y chwerthin, a'r cydaddoli, a'r cyd-ofidio, a'r cyd-ddathlu, a'r cydweithio. Bu'n bleser pur.

Diolch, Des a Nansi, a dymunwn bob hapusrwydd i chi'ch dau ar yr aelwyd newydd yng Nghaerfyrddin.

y Bwrdd yn Neuadd Gymunedol y Borth, ddydd Sadwrn, 21 Tachwedd. Diolchir yn gynnes i Mrs Rosa Davies a drefnodd y Sêl ac i bawb a gefnogodd yr achlysur ar fore gwlyb a gwyntog.

Estynnwn ein dymuniadau gorau at Mrs Rosa Davies ar ôl iddi dderbyn triniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ystod y mis, gan ddymuno iddi wellhad buan.

**Gwasanaethau'r Nadolig**

Dydd Sul, 20 Rhagfyr am 11.15 a.m.: Gwasanaeth Boreol a Drama'r Geni, wedi'i pherfformio gan blant yr Ysgol Sul.

Noswyl y Nadolig, dydd Iau, 24 Rhagfyr am 3p.m.: Carolau yng ngolau canhwyllau.

Noswyl y Nadolig, nos Iau, 24 Rhagfyr, am 11.30 p.m.: Gwasanaeth Hanner Nos a'r Cymun Bendigaid.

Bore Dydd y Nadolig, dydd Gwener, 25 Rhagfyr, am 8 a.m.: Cymsun Bendigaid

Dydd Sul, 27 Rhagfyr am 11.15 a.m.: Cymun Bendigaid

Nos Iau, 31 Rhagfyr, sef Nos Galan, am 11.30 p.m.: Gwasanaeth Hanner Nos a'r Cymun Bendigaid.

# CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

Ar ddydd Sadwrn, 17eg o Hydref cynhaliwyd serremoni arferol y capteiniaid newydd. Y Capten newydd yw John Murphy a Capten newydd y boneddigesau yw Kathy Price. Yn y llun mae Capten newydd yr Adran Iau, sef Zach Galliford (chwith) a'i Is-gapten Luke Williams. Yn dilyn y seremoni a'r cymdeithasu yn y Clwb arweiniodd Zach pawb o'r Adran Iau mewn cystadleuaeth Stableford. Y canlyniadau oedd: Gyrru'r hiraf ar y 17eg twll a enillwyd gan Angharad Basnett (Bont-goch); agosaf at y pin ar y 16eg twll a enillwyd gan Ioan Lewis (Bow Street). Enillydd y gystadleuaeth Stableford oedd Jacob Billingsley (Dôl-y-bont) gyda 41 pwynt, ail Steffan Richards (Y Borth) 40 pwynt ac yn drydedd oedd y capten ymddeol Daniel Basnett (Bont-goch) 39 pwynt. Dros hanner tymor mwynheuodd yr Adran Iau gyfnod o dywydd digon dymunol i chwarae cwpwl o gystadlaethau. Canlyniadau:

25.10.09 Cystadleuaeth Medal
1af Jacob Billingsley (Dol-y-bont) 84:13:71
2il Zach Galliford (Y Borth) 74:1:73 (9 cefn)
3ydd Ioan Lewis (Bow Street) 87:14:73
27.10.09 Cystadleuaeth Stableford
1af Ben Slater (Y Borth) 41 pwynt
2il Gethin Morgan (Pisgah) 38 pwynt
3ydd Daniel Basnett (Bont-goch) 38 pwynt
29.10.09 Gem rhwng tîm y Capten yn erbyn tîm yr Is-Gapten
Zach Galliford (Y Borth) - Capten yr Adran Iau a'i dim: Jac Morris (Y Borth), Jacob Billingsley (Dôl-y-bont), Gethin Morgan (Pisgah), Ioan Lewis a Sion Ewart (Bow Street).
Luke Williams (Bow Street) - Is-Gapten yr Adran Iau a'i dim: Alex Watt (Machynlleth), Daniel Basnett (Bont-goch), Ben Hughes-Jones (Tal-y-bont), Bryony James (Llanbadarn), Rhodri ac Iolo ap Dafydd (Goginan).
Tîm y Capten oedd yr enillwyr a ddyfarnwyd gan y 5 sgôr orau a ganlyn:
Tîm Zach: 173 pwynt Tîm Luke: 157 pwynt
30.10.09 Cystadleuaeth Bogey
1af Daniel Basnett (Bont-goch) +1
2il Ioan Lewis (Bow Street) Cydradd (9 cefn)
3ydd Chris James (Clarach) Cydradd

Ar ddydd Gwener 30 Hydref chwaraeodd yr Adran Iau gem hwyliog yn Y Borth yn erbyn Harlech. Dyma'r ail dro i'r ddau dîm chwarae ei gilydd ac mae'r trefniant yn un llwyddiannus dros ben. Hapus i'w cofnodi fod Y Borth ac Ynys-las wedi ennill eleni gyda sgôr o 2 i 1 ar ôl colli'r llynedd.



# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Ionawr**
**2 o'r gloch**
**3** Elwyn Pryse
**10** M J Morris
**17** Bugail
**24** Irfon Evans
**31** Eifion Roberts

### Cyfarchion

Gobeithio bydd pawb yn yr ardal yn mwynhau Gŵyl y Geni ac yn cofio am y mab bychan a ddaeth yn waredwr, a dymuniadau da i'r flwyddyn newydd.

### Croeso

Croeso i Alister, Tania a Sebastian i Cwm Hudol ac i Jo Jones i'r Gelli, Cefn-llwyd.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Dai Evans, Deilyn am ennill nifer o wobrau yn nosbarthiadau'r ŵyn yn sioe Aeaf Llanelwedd.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn a Mrs Nan Hughes, Gellinebwen, ar golli chwaer, Mrs Gwerfyl James, Tynpwll; hefyd teuluoedd Gwarcwm Hen a Rhos-goch.

Cydymdeimlwn â theuluoedd y ddiweddar Mrs Naomi Jones o Gaerdydd, gynt o fferm Llwyn Ddewi, Capel Dewi — teuluoedd Clydfan, Murmur-y-Coed, Grovelands ac Elonwy.

# LLANDRE

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i David ac Eileen Griffiths, 2 Maeshenllan ar ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd merch, Megan Lia ar 17 o Dachwedd i Neil ac Isla, Tal-y-bont. Chwaer fach newydd i Kayleigh, Lowri, Carwyn a Lewis.

### Croeso adre

Mae'n bleser gan David ac Eileen Griffiths a'r teulu, 2 Maeshenllan, groesawu adref eu mab Y Rhingyll Andrew Griffiths, sydd newydd ddychwelyd adre yn saff ar ôl 6 mis yn Afghanistan gyda'r 2 Comp Bataliwn Cyntaf o'r Gwarchodlu Cymreig . Croeso adre Andrew oddi wrth y teulu i gyd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Angharad a Gwion Evans, 11 Maeshenllan ar enedigaeth mab bach, Iolo Dafydd Ifan ar 20fed o Hydref. Brawd bach i Gwenllïan ac Esyllt a ŵyr i Alun a Mary Morris Aberystwyth.

### Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn

Calendr - Mae ychydig ar ôl, os hoffech brynu un cysylltwch â Betty Williams. Ffôn 828355

# TREFEURIG

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Merfyn, Trawsnant, ar ddathlu ei ben blwydd yn 65 oed ar y 23ain o Ragfyr. Dymuniadau da iddo hefyd am wellhad buan ar ôl llawdriniaeth clun newydd yn Ysbyty Bron-glais. Pob lwc iddo yn y dyfodol.

# DÔL-Y-BONT

### Gwellhad buan

Bu Rachel Rowlands, Brynllys, yn derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Treforus ddiwedd Tachwedd. Dymunwn wellhad llwyr a buan iddi a da yw deall ei bod adref erbyn hyn.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Richard a Bernard Moore, gynt o Dolwar ar farwolaeth priod a mam. Bu farw Mrs. Patricia Moore ddiwedd Tachwedd.


**CLWB CŴL**
**Penrhyn-coch**
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£5 y sesiwn. £4 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig
I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith 07972 315392
Neu cipiwch i mewn i'r clwb ar ôl Ysgol
Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan,
Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

# GOGINAN

### Ymddiheuriadau

Ymddiheuriadau llaes i ohebydd a darllenwyr Goginan- diolch i ddiawl y wasg ni ymddangosodd newyddion y pentref y mis diwethaf.

### Paul Kittle

Trist yw cofnodi marwolaeth Paul Kittle, Gwelfryn, Goginan ag yntau ond yn 48 mlwydd oed. Bu farw ar ddydd Llun , Hydref y 5ed pan ar ei wyliau gyda'i bartner o dros ugain mlynedd Susanne, yn ynysoedd Groeg. Roedd yn llysdad annwyl i Anne a'i gŴr Nic, Barry a'i bartner Claire ac yn dad-cu balch tu hwnt i Holly. Mab i Jim Kittle a'i wraig Olga, Haulfryn, Cwmbrwyno a brawd Adam, Aberystwyth, Jane a Huw ei gŴr, Hafan, Cwmbrwyno. Roedd hefyd yn meddwl tipyn o'i neiaint; Jason, Samantha, Steven a Sioned.

Ganed Paul yn Essex and buan y symudodd gyda'i rhieni i Henffordd ac yna i Tyngraig, Swyddffynnon. Aeth i'r ysgol lleol yn Swyddffynnon lle y dysgodd siarad Cymraeg ac aeth ymlaen i ysgol Tregaron ac wedyn i Ben-glais pan symudodd ei dad i Lanbadarn i ofalu am dafarn y "Black Lion." Wedi gadael ysgol aeth fel prentis peirianaeth i Aber-porth lle y dysgodd aml grefft a oedd i ddod yn ddefnyddiol iddo trwy weddill ei fywyd. Ar ôl gorffen ei brentisiaeth bu'n gweithio mewn sawl modurdy lleol gan ganolbwyntio ar feiciau modur. Roedd yn berson arbennig gyda'i ddwylo a symudodd ymlaen at y gwaith plymio gan weithio ers blynyddoedd bellach i gwmni plymio lleol. Roedd ei allu amryfal yn cael ei adlewyrchu yn y gofal a roi i'w gartref, Gwelfryn. Fe fu iddo aildoi y tŷ a gwneud amryw o wellianau, yn ddiweddar roedd newydd baentio'r tu allan.

Cynhaliwyd ei gynhebrwng yn Amlosgfa Aberystwyth ar y 15fed o Hydref pryd y daeth torf enfawr i dalu y deyrnged olaf. Arweiniwyd y gwasanaeth gan y Parchedig Ifan Mason Davies gyda darlleniad pwrpasol gan Peter Jones a Mansel James yn organydd. Roedd maint y dorf yn dangos cymaint oedd Paul a'i deulu wedi gwneud argraff ar ei gymuned yng Ngoginan ac hefyd o'i blentyndod yn Llanbadarn. Cydymdeilwn gyda'r teulu oll.

### Prawf Gyrru

Llongyfarchiadau i Lee Evans, Gwarllan, ar basio ei brawf gyrru. Cofia yrru yn ofalus!

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Aled a Caryl, Hafodau ar enedigaeth mab — Joseff Hedd - ar 6 Rhagfyr.

### Radio Cymru

Braf oedd clywed Manon Davies, Gilfachglyd, ar raglen Dafydd Du ac Eleri Sion yn y bore. Hi oedd DJ y dydd ac yn ôl pob fe fydd rhaid i sawl un wylio neu fydd Manon yn cymeryd ei swydd.

### Gwella

Braf yw cofnodi fod Lewis Johnston, Y Druid, wedi gwella ar ôl ei lawdriniaeth sydyn yn Ysbyty Bron-glais diwedd Mis Medi.

### Cydymdeimlo

Trist yw cofnodi marwolaeth Margaret Biggs, Royal Oak, yn 60 oed, neu fel yr hoffai cael ei adnabod Bigsy. Symudodd hi a Mel ei chymar i'r ardal 23 o flynyddoedd yn ôl ond er byw yng Ngoginan fe fu yn teithio'r wlad yn darlithio ar Gyfraith Tai, ac yn boblogaidd iawn gyda'i myfyrwyr gan ei bod yn berson bywiog a diddorol. Cafodd ei llawdriniaeth gyntaf yn Awst 08 ond roedd yn benderfynol i gadw ymlaen gyda'i gwaith tan yr ychydig wythnosau diwethaf lle bu Mel yn gofalu amdani tan y diwedd. Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Mel, mam Margaret, a'i brawd.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Ian a Rose Sant, Ravenscloough, ar enedigaeth wyres fach — Elizabeth Amina, merch i Thomas a chwaer i Alex sydd yn byw yn Corinda, Queensland, Awstralia. Mae Mam-gu a Tad-cu yn edrych ymlaen i deithio i weld y teulu bach yn fuan

### Marwolaeth

Trist yw cofnodi marwolaeth un arall o hen drigolion yr ardal, sef Gwerfyl James, Tynpwll, priod y diweddar Richard (neu Dick Tynpwll fel ei adnabyddid yn y gymuned) a mam i Ceredig ac Elfed, mam yng ngyfraith Hazel a Gwen a mam-gu annwyl i Angharad.

Ganed Gwerfyl yn Llanfarian cyn symud gyda'i theulu i Penbryn o ble yr aeth i'r ysgol lleol. Treuliodd ei blynyddoedd cynnar adref ar y fferm yn helpu ei rhieni a hefyd gwarchod oedolion eraill. Cyfarfu â Dick a symud i Tynpwll i ffermio a magu ei phlant tra symudodd gweddill y teulu o Benbryn i'r Hendre yn Llandudoch. Cyn, ac ar ôl colli ei phriod rhyw dri deg mlynedd yn ôl bu hefyd yn gweini yn nhafarnau Maesbangor a Thynllidiart am flynyddoedd.

Bu'n dioddef ers blynyddoedd bellach o'r cryd cymalau a chan fod yn gaeth i'w chadair olwyn bu mewn cartref pwrpasol yn Llanybydder. Pob cydymdeimlad â'i meibion a'r teulu oll.

### Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn â Olga Kittle, Haulfryn, Lynette Price, Panteg a'u teluoedd ar farwolaeth eu tad sef Bill Westerman o Blaen-plwyf.

### Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Lee Evans, Gwarllan ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Gobowen yn ddiweddar.

# O'r Cynulliad – Elin Jones AC

Er bod y dydd yn byrhau a'r tywydd yn troi'n fwy gaeafol, mae'r wythnosau diwethaf wedi bod yn llawn digwyddiadau o bwys i drigolion Ceredigion.

Ar ddechrau'r mis, fe ddaeth cadarnhad bod y Gweinidog Iechyd, Edwina Hart AC, wedi cymeradwyo buddsoddiad gwerth £7.5 miliwn tuag at ran gyntaf o'r prosiect i ailddatblygu Ysbyty Bron-glais. Mae'r buddsoddiad hwn yn ffurfio rhan o gynllun ehangach gwerth dros £40 miliwn a fydd yn gweld estyniad newydd yn cael ei godi er mwyn darparu gwell adnoddau i'r ysbyty, gan gynnwys adran ddamweiniau a theatrau newydd.

Yn gynt eleni, fe gynhaliodd y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Jane Davidson AC, ymgynghoriad ar gynlluniau posib i gyflwyno ffi ar gyfer bagiau plastig mewn siopau. Yn sgil yr ymgynghoriad, fe gyhoeddodd y Gweinidog ei bod yn gobeithio cyflwyno deddfwriaeth newydd er mwyn cyflwyno ffïoedd o'r fath erbyn 2011 ac y bydd yn awr yn mynd ati i edrych ar ba fath o fagiau i gynnwys o dan y cynlluniau hyn. Er ein bod fel cymdeithas wedi llwyddo i leihau ein defnydd o fagiau plastig dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n fwyfwy amlwg mai dim ond trwy gyflwyno ffi amdanynt y gallwn leihau'r defnydd ymhellach.

Mae yna gryn ofid wedi bod yn ddiweddar ynghylch dyfodol y swyddfa Cyngor ar Bopeth, sydd hefyd yn cynnig gwasanaethau allymestyn mewn nifer o gymunedau eraill ar draws Ceredigion. Mae'n wasanaeth sy'n darparu cyngor a chymorth pwysig i drigolion lleol ac mae'n hanfodol bod pob ymdrech yn cael ei wneud i'w ddiogelu. Yn anffodus, mae'r swyddfa yn Aberystwyth yn wynebu trafferthion cyllido a all olygu y bydd yn rhaid iddynt gau yn y dyfodol agos. Rwyf wedi codi'r mater gyda'r Cyngor Sir ac rwy'n deall eu bod wedi bod yn cynnal trafodaethau gyda chynrychiolwyr o'r swyddfa Cyngor ar Bopeth er mwyn ceisio datrys y sefyllfa.

Yn ddiweddar, mynychais seremoni wobrwyo Gwir Flas Cymru yn Y Fenni. Roedd hwn yn gyfle bendigedig i gael gweld ansawdd a safon ein cynnyrch yng Nghymru a hoffwn longyfarch yr holl enillwyr a ddaeth i'r brig ac a oedd, yn fel arfer, yn cynnwys nifer fawr o gynhyrchwyr o Geredigion.



Llongyfarchiadau i Elin Jones AC ar ennill gwobr 'AC y Flwyddyn'!

# BOW STREET

### Merched y Wawr Rhydypennau

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Gwenda a thrafodwyd gohebiaeth y mudiad a materion a godwyd o'r llawr. Yna, cyflwynodd ein siaradwraig wadd sef, Mair Jenkins o Gapel Bangor. Roedd Mair wedi gwisgo côt Japaneaidd oedd yn arddangos y pedwar tymor. Yn 1979 bu Alun, gŵr Mair, yn canu yn Japan ac ymhlith yr anrhegion a ddaeth yn ôl i'w deulu oedd kimono bach i Gareth, ei fab pedwar mis oed. Erbyn hyn mae Gareth wedi ymsefydlu yn Japan. Roedd wedi teithio yno gydag Ysgol Penweddig ac yn ddiweddarach graddiodd mewn Japanaeg. Dylanwad bore oes! Oherwydd hyn mae Mair wedi ymweld â Japan bum gwaith. Rhoddodd sgwrs hynod ddiddorol am fywyd yn y wlad - yr ynysoedd; y tywydd; y tai; arferion; gwestai; siopa a bwyd. Soniodd hefyd am ddylanwad teledu gorllewinol ar deledu Japan ac am ei hymweliad â'r Amgueddfa Heddwch a oedd yn dangos ffeithiau am Hiroshima. Ar ôl dangos rhai sleidiau aeth ati i baratoi swshi i'r aelodau flasu. Barn pawb oedd ei fod yn flasus iawn!

Diolchodd Gwenda yn gynnes iawn iddi am agor ein llygaid i fywyd yn Japan. Bethan a Shân oedd yng ngofal y te. Enillwyd y raffl gan Mair Davies. Llongyfarchiadau i dîm y gangen aeth i'r "cwis cenedlaethol". Daethant yn drydydd yn rhanbarth Ceredigion.

Edrychwn ymlaen at gael cwmni Iwan Jones, Dolau yn ein cyfarfod nesaf. Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Angharad a Steve Welsby ar enedigaeth Amelia Elen ym mis Hydref, chwaer fach i Lily-May, wyres i Gwyneth a Malcolm Hunkin, Bryncastell, a nith i Guto ac Adrianna. Croeso mawr i'r fechan oddi wrth y teulu i gyd.

### Cymdeithas Chwiorydd y Garn

Cynhaliwyd y Ffair flynyddol fore Sadwrn 28 Tachwedd yn y Neuadd ac fe groesawyd pawb gan Gwenda Edwards, y Cadeirydd. Eleni gwahoddwyd Alan ac Ann Wynne Jones i agor y ffair, dau o aelodau ffyddlon a gweithgar y capel. Cawsom anerchiad diddorol gan Alan a gwerthfawrogwyd y rhodd hael a gyflwynwyd ganddynt. Cyflwynwyd blodau i Ann gan ddau o blant yr Ysgol Sul, William a Gerwyn, Caergywydd.
Fel arfer roedd digon o gyfle i brynu amrywiol nwyddau a bwydydd oddi ar y stondinau ac i brynu tocynnau raffl. Codwyd swm sylweddol o arian a diolchwyd i bawb fu'n gweithio a chefnogi gan y Parchedig Wyn Morris.

Daeth y chwiorydd ynghyd ar 2 Rhagfyr gyda Gwenda Edwards yn llywyddu a chroesawu. Roeddem yn falch o weld Nest Davies wedi gwella'n ddigon da i ddod yn ôl atom. Arweiniwyd mewn defosiwn gan Llinos Dafis a Kathleen Lewis oedd wrth yr organ. Diolchodd y Llywydd i bawb fu'n cynorthwyo yn y ffair ac yn enwedig i Shân Hayward am yr holl waith trefnu.

Cawsom brynhawn diddorol iawn yng nghwmni Ruth Jên yr artist a'r argraffydd o Dal-y-bont sy'n byw yn hen siop esgidiau'r Morganiaid ac y mae'i gweithdy ym mlaen y tŷ. Rydym i gyd yn gyfarwydd â'r murlun mawr o waith Ruth yn y pentref ac yn ddiweddar mae wedi llunio un arall llai ger y siop trin gwallt. Bu'n dangos inni sut i wneud amrywiol gardiau a chafodd pawb gyfle i ddilyn ei chyfarwyddiadau a llunio cardiau. I gloi prynhawn diddorol cafwyd cyfle i gymdeithasu dros baned a lluniaeth a baratowyd gan chwiorydd Pen-y-Garn.



Llun: Ian Cole

Aelodau Grŵp Help Llaw y Garn gyda rhai o'r bocsys a baratowyd ar gyfer Operation Christmas Child 2009. Ers degawd bellach mae'r Grŵp Help Llaw wedi bod yn rhan o'r ymgyrch Operation Christmas Child drwy lenwi bocsys sgidie gyda rhoddion addas i blant anghenus ledled y byd. Bu eleni yn flwyddyn arbennig iawn pryd y derbyniwyd 59 o focsys gorlawn a £258 o bunnoedd o nawdd. Diolch o galon i bawb a gefnogodd yr ymgyrch trwy baratoi bocs a chyfrannu'r ariannol.



Alan Wynne ac Ann Jones yn agor Ffair Nadolig y Garn, 28 Tachwedd

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Noel a Maureen Morgan, 2 Brynmeillion, ar farwolaeth mam Noel yn ardal Cydweli yn ystod y mis diwethaf.

Dymuna Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Richard a Rheinallt ddiolch o waelod calon i ffrindiau yn ardal y Tincer am bob arwydd o gydymdeimlad a fynegwyd iddynt yn sgil y brofedigaeth fawr a ddaeth i'w rhan wrth golli John Wyn, brawd arbennig Mair. Diolch am yr holl gardiau, y rhoddion er cof am John a'r ymweliadau niferus. Hefyd diolch o galon i bob un a deithiodd o Geredigion i'r angladd ym Mhencaenewydd ac ymlaen i'r fynwent yn Llanaelhaearn. Gwerthfawrogwyd hyn yn fawr iawn gan y teulu yn Eifionydd.

Ni fyddwn yn anfon cardiau Nadolig eleni, felly dyma fanteisio ar gornel fach o'r Tincer i ddymuno Gŵyl fendithiol a blwyddyn newydd heddychlon i bawb.

### Pen blwydd hapus

Llongyfarchiadau i Mari Wyn Lewis, Carregwen, Bow Street sy'n 18oed ar 18/12/09. Joia dy bartïon i gyd1 Cariad mawr oddi wrth Mam, Dad, Ioan, Elis, Nanna, Grandpa, Mam-gu Cil-y-cwm a Mam-gu & Tad-cu Ystradgynlais.



Wynne Melville Jones a Mistar Urdd mewn gwasanaeth arbennig ar Sul yr Urdd yn y Garn, 15 Tachwedd



William a Gerwyn, Caergywydd, yn cyflwyno blodau i Ann Jones yn Ffair y Garn, 28 Tachwedd



Mari Wyn Lewis

### Hephsiba

Am fod ein hynafiaid yn fwy cyfarwydd â r Beibl na ni roeddynt yn dewis enwau diddorol i'w capeli. fel yr un ar gapel Annibynwyr Dyffryn Clarach ym 1837. Troi i Eseia 62,4, a wnaeth yr hen bobol yng nghwmni'u gweinidog Benjamin Rees a bedyddio'r addoldy a godwyd ar dir Tyn-y-Pwll ar bwys Tŷ' rabi yn HEPHSIBA: '... ti a elwir Hephsiba canys y mae yr Arglwydd yn dy hoffi'. Er bod pregethu yn y 'Cross' ym 1805 a bod yr addolwyr wedi cwrdd dros dro iyn Nhŷ 'rabi a Phorthangel, oedwyd cyn adeiladu'r capel oherwydd gwrthwynebiad teulu uchel-eglwysig Cwm Cynfelyn i gael y fath ddolur llygaid gyferbyn â'u plas. Dewisodd y bobol enw pwrpasol ar eu tŷ cwrdd am y credent fod Duw, yn wahanol i Williamsiaid Cwm Cynfelyn, yn eu hoffi. Yn yr agoriad ym 1837 bu wyth pregethwr yn traethu am ddiwrnod a noson a chyfansoddodd y gweinidog emyn i ddathlu'r agoriad. Tybed a welodd rhywun emyn Benjamin Rees?

Roedd Hephsiba yn rhan o ofalaeth Soar, Llanbadarn a Beulah, Dyffryn Paith yn nyddiau Benjamin Rees a bu mewn cysylltiad wedyn â Salem Coedgruffydd. O 1868 ymunodd gyda chapel y Borth. ac o 1868 i 1876 y gweinidog oedd William Williams a hyfforddwyd yng Ngholeg Caerfyrddin. Fe'u holynwyd hyd 1887 gan weinidog Bethesda Tŷ-Nant, Seion Ceulan a Thabor y Mynydd, Peter Davies brodor o Goed-poeth a fu'n weinidog yn Arthog. Mae fy nghyfaill y Parchg. Derwyn Morris Jones o'r un cyff. Symudodd ŵyr Peter Davies, Eric Dunning a'i briod Joyce o Lundain i Lanuwchllyn a buom yn sôn am y taid yn Nhal-y-bont, Clarach a'r Borth. Symudodd i Bant-teg sir Gaerfyrddin a gofynnodd Eric imi fynd i fynwent y capel i weld ei garreg fedd wedi imi symud i Gaerfyrddin.

Ym 1887 wedi ymadawiad Peter Davies ordeiniwyd Joseph Llewelyn o Gilcennin a gwasanaethodd am ddeugain mlynedd. Tyfodd poblogaeth Bow Street yn gyson ar ôl agor y rheilffordd ym 1864 ac erbyn dechrau'r ugeinfed ganrif roedd y gweinidog yn awyddus i gael capel yn y pentre ac fe ddigwyddodd hynny ym 1903. pan godwyd Noddfa yn ymyl Melin Ruel. Adnewyddwyd Hephsiba i gynnal Ysgol Sul am gyfnod ond buan y daeth addoli i ben yno.

Byddaf yn cerdded at yr hen gapel yn aml ac yn oedi yn y fynwent a'r tro olaf y bûm yno cefais gwmni fy nghyfaill Iwan Davies disgynnydd i aelodau selog y capel gynt. Aeth a mi at garreg fedd ei hen hen dad-cu Richard Jones(1795-1860) ac Elizabeth ei wraig (1794-1866), rhieni Benjamin a sefydlodd ei efail yng Nglanrafon yn y lôn fach ger y dafarn yng ngwaelod Bow Street. Priododd Myfanwy un o i ferched ef a Catherine ei briod ag Enoc Davies o Benrhyn-coch ac o'r saith plentyn a anwyd iddynt dim ond ein cymdoges Eunice Fleming sy'n goroesi. Un o'i brodyr, David John oedd tad Iwan, a Benjamin brawd arall oedd tad John fu ar staff y Llyfrgell Genedlaethol ac a fu farw yn Ebrill. Fel yr hynafiaid yn Hephsiba bu Iwan, John a'i modryb Eunice yn ffyddlon a gwasanaethgar yn Noddfa .

Hyd nes imi ddarllen yn y gyfrol *Capeli Môn*, 2007, Geraint I.L.Jones, fod gan y Presbyteriaid gapel (wedi cau bellach) gapel o'r enw Hephsiba ym mhlwyf Rhosbeirio tua 2 filltir o Lanfechell, roeddwn yn meddwl mai dim ond Hephsiba Clarach oedd yn dwyn yr enw. Os gwyddoch am un arall carwn gael gwybod.

W.J.Edwards



Capel Hephsibah Llun: Anthony Pugh

# PEN-LLWYN / CAPEL BANGOR

### Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad a Mrs Marian Lewis, Glanrheidol, sydd wedi colli brawd ar yr 28ain o Dachwedd, sef Mr Gwilym Richard Jones, Rhoscellan Fawr, Clarach. Cofiwn amdani yn ei hiraeth.

### Cyfarchion

Dymunwn i ddarllenwyr yr ardal Nadolig hapus a Blwyddyn Newydd dda, yn enwedig i'r rhai sydd yn gaeth i'w cartrefi, ac i'r rhai sydd mewn Cartrefi Gofal, sef Mrs Myfanwy Thomas, Troedrhiwlwba, Mrs Elizabeth Jones, Rhoslwyn a Mrs Megan Crees, Gwelfor.

### Merched y Wawr – cangen Melindwr

Croesawyd pawb i ail gyfarfod y tymor gan ein llywydd, Beti Daniel. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'n cinio Nadolig sydd i'w gynnal ym mis Rhagfyr. Diolchodd y llywydd i Angharad Jones am gynrychioli'r gangen ar bwyllgor y neuadd. Cytunodd Beti Daniel i gynrychioli'r gangen o hyn ymlaen.

Croesawyd ein gwraig wadd am y noson, sef Eirlys Lloyd, sy'n un o wirfoddolwyr y Samariaid yn Aberystwyth. Trwy gyfrwng ffilm a sgwrs soniodd am gefndir y mudiad ac am sefydlu'r gangen yn Aberystwyth. Clywsom sut mae'r mudiad yn gweithredu ac am ei phrofiad hi fel gwirfoddolwraig. Roedd yn amlwg bod ganddi wybodaeth drylwyr am y mudiad. Roedd yn barod iawn hefyd i ateb cwestiynau'r aelodau. Hannah Davies ddiolchodd i Eirlys ac roedd yn ddiddorol clywed am y modd y cyfarfu hi a Chad Varah, sefydlydd y Samariaid pan ddaeth ar ymweliad i Aberystwyth. Yn ystod y noson gwnaed casgliad ymhlith yr aelodau tuag at Y Samariaid. Eirlys Davies (Brynmeillion) ac Eirwen McAnulty oedd yng ngofal y te. Enillwyd y wobr raffl gan Llinos Evans.

**Mis Tachwedd**

Cyfarfu'r aelodau ar nos Fawrth, 3ydd Tachwedd ac fe'u croesawyd gan y llywydd, Beti Daniel. Gwnaed y trefniadau angenrheidiol ar gyfer ein cinio Nadolig. Ein gwraig wadd oedd Kate O'Sullivan sydd yn filfeddyg yn Llanbadarn Fawr. Wrth ei chyflwyno soniodd y llywydd am y rhaglenni radio a theledu y mae wedi cyfrannu atynt.

Nid am ei gwaith bob dydd y soniodd y wraig wadd ond yn hytrach am y cyfnod a dreuliodd hi a'i gwr yn gweithio yn Cambodia rhwng 1991 ac 1994. Aethant yno o dan gynllun VSO. Roeddynt yno i hyfforddi milfeddygon y wlad a hynny mewn cyfnod o newid yno. Drwy gyfrwng sleidiau a sgwrs cawsom ddarlun o fywyd Cambodia ganddi.

Diolchwyd iddi gan Angharad Jones. Paratowyd cwpanaid o de gan Margaret Dryburgh a Heulwen Lewis. Glenys Griffith enillodd y wobr raffl.

RHAGHYSBYSIAD
16 Chwefror
Nos Fawrth Ynyd
**Noson Grempog**
7 - 8 pm
Adloniant i ddilyn gan
Deulu Ynys Forgan
Neuadd yr Eglwys,
Capel Bangor

Gwasanaeth Cynnal M.H.
Gwasanaeth Torri Porfa a Garddio, Peintio, Teilo, D.I.Y. a manion waith eraill o amgylch y tŷ
Disgownt i bensiynwyr
Ffoniwch ni yn gyntaf ar 01970 881090 / 07792457816

AberTechnoFix
Cymorth cyfrifiadurol lleoledig yn Aberystwyth
Cyfrifiadur HELP?
Ymweliad cartref
Ffoniwch
07536 022 067

# PENRHYN-COCH

## Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

Dyma gystadlaethau llenyddol yr Eisteddfod a gynhelir yn 2010 ar Ebrill 23-24 Dylai'r cyfansoddiadau fod yn y Gymraeg ac yn llaw y beirniaid erbyn 10fed o Ebrill.

Rhifau 1-5 i Tudur Dylan Jones, Carreglwyd, Heol Penlanffos, Tanerdy, Caerfyrddin SA31 2EZ a 6-10 i Dafydd Morgan Lewis, 10 Rhes Gogerddan, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EX

Ar gyfer Cystadlaethau Tlws yr Ifanc a'r Gadair dylid gyrru ffugenw, enw priodol a chyfeiriad i"r Ysgrifennydd (Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth, Penrhyn-coch, Ceredigion SY23 3XH erbyn 17 Ebrill 2010.

1 Cystadleuaeth y Gadair: Cerdd heb fod dros 50 o linellau ar y testun 'Gofal'
2 Telyneg: Ymddiheuro
3 Englyn digri: Methu
4 Soned: Y Llyfrgell Genedlaethol
5 Limrig - Ni welais erioed beth mwy rhyfedd
6 Stori Fer: Gobaith
7 Brawddeg: Penweddig
8 Tlws yr Ifanc: Stori Fer: Cadwyni
9 Erthygl i gylchgrawn yn trafod unai Radio Cymru neu S4C —Cystadleuaeth i rai dan 25 oed.
10 Llythyr at Aelod Seneddol neu Aelod Cynulliad yn mynegi safbwynt ar unai Moch Daear neu Felinau Gwynt.

**Suliau Ionawr - Horeb**

**Rhagfyr**
20 2.30 Oedfa Nadolig y plant ac ieuenctid
25 7.30yb Oedfa gymun bore Nadolig
27 10.30 Oedfa diwedd blwyddyn

**Ionawr**
3 2.30 Oedfa gymrun Gweinidog
10 10.30 Oedfa deuluol Gweinidog
17 2.30 Oedfa bregethu Gweinidog
24 10.30 Clwb Sul bach ac Oedfa bregethu Gweinidog
31 10.30 Oedfa bregethu Gweinidog

### Salem

10 2.00 Parch.D.A.Lenny
24 10.00 Parch. Terrry Edwards

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 12 a 13 Ionawr. Cysylltwch â Egryn Evans (828 987) am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Atgofion o Salem

Derbyniodd Gwefan Trefeurig dair llawysgrif fanwl yn Saesneg sydd wedi eu rhoi ar wefan y plwyf — Atgofion William Elfed Davies o Salem. Ganwyd Mr Davies ym 1919 a bu farw yn 2002. Ceir ar y wefan y dogfennau sydd yn olrhain hanes ei blentyndod yn y pentref, ei addysg yn Nhrefeurig, ei waith yn Aberystwyth cyn y Rhyfel, yn ogystal â disgrifiadau dwys, ond doniol yn aml, o'i fywyd fel milwr yn ystod y Rhyfel cyn iddo ddychwelyd i Salem a'r Penrhyn. Mae'r dogfennau hyn yn cynnwys disgrifiadau manwl o'i hyfforddiant yn y DU, ei hanes yn teithio mewn confoi trwy Fôr yr Iwerydd, ac ym Mrwydr Gogledd yr Affrig, ac ymlaen i'r Eidal tan iddo adael y fyddin ym 1946.

Gweler http://www.trefeurig.org/hanesdavies.php

### Neuadd Penrhyn-coch

Nos Wener, 4ydd o Ragfyr fe gynhaliwyd noson o Bingo yn Neuadd y Penrhyn. Er mai braidd yn siomedig oedd y gynulleidfa cafwyd noson hwyliog dros ben. Yn ystod y noson cyflwynwyd siec o £1,487 gan Selwyn Thomas, Llandysul a Hywel Evans, Penrhyn-coch a drefnodd ddiwrnod ras y tractorau nôl yn yr Hydref i gronfa'r Neuadd. Diolchodd Dai Rees Morgan, Cadeirydd Pwyllgor y Neuadd i bawb a gyfrannodd at y diwrnod ac at y Bingo. Rhwng y siec a'r arian a wnaethpwyd ar y noson cafwyd swm sylweddol a chafwyd noson dda.

### Dau ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i John ac Eirwen Hughes, Pen-cwm, ar ddod yn dad-cu a mam-gu i ddau ŵyr newydd. Ganwyd mab — Defi Waldo i Elen a Rhys, Llanfihangel-y-creuddyn ar 24 Tachwedd— brawd bach i Jona a ganwyd mab — Joseff Hedd - i Aled a Caryl, Hafodau, Goginan ar 6 Rhagfyr.

### Cydymdeimlad

Cydymdeimlwn â Gaynor a Hefin Jones, Ffion a Ben, Ger-y-llan ar farwolaeth tad Gaynor — Enock Meredydd Williams - yng Nghapel Seion ddiwedd Tachwedd.

### Ysbyty

Dymunwn wellhad buan i Ceredig Evans, Glanaber, sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty yn ddiweddar.

i Glenys Thomas, Cwmfelin, ar ôl cael triniaeth ar ei llygaid; ac i Meirion Jones, Glanceulan, a fu yn yr ysbyty yn cael triniaeth.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Ryan Waters sydd wedi cael tymor arbennig ar ei feic modur. Mae Ryan sydd ond yn bymtheg oed wedi bod â diddordeb yn y beiciau hyn ers yn fach iawn. Mae yn aelod o sawl clwb yn cynnwys Clwb Pobl Ifanc Rhaeadr a'r Warley Wasps o Ganolbarth Lloegr. Mae wedi ennill amryw o wobrau ac mae yn ddyledus iawn i'w dad am fod mor gefnogol iddo.

### Merched y Wawr, Penrhyn-coch

Nos Iau, 12fed o Dachwedd, croesawodd ein llywydd, Ceri Williams, bawb i'r cyfarfod. Fe ddymunodd wellhad buan i'r aelodau a fu yn achwyn ac fe gydymdeimlodd ar y rhai a gollodd anwyliaid yn ddiweddar. Yna aed ymlaen i wneud y busnes arferol a mynd trwy'r ohebiaeth a ddaeth i law. Yna gan fod ein gŵr gwadd, Michael Davies, wedi methu a dod oherwydd salwch fe gymerodd ein llywydd ar fyr rybudd at y noson. Roedd wedi dod a ffilm '*Y Chwarelwr*' i ddangos. Hon oedd y ffilm llafar gyntaf erioed yn Gymraeg o waith Syr Ifan ap Owen Edwards gyda John Ellis Williams yn ei helpu a hynny yn y flwyddyn 1935. Dangoswyd i ni ar y noson fersiwn diweddarach o'r ffilm oherwydd yn anffodus roedd ansawdd a sain y ffilm wreiddiol yn wael. Yr oedd rhan olaf o'r ffilm wedi mynd ar goll. Ond fe gafodd y ffilm ei hail greu gan Ifor ap Glyn, cyfarwyddwr teledu, gyda diweddglo newydd o'i waith ef. Fe wnaeth hyn drwy fynd yn ôl i Flaenau Ffestiniog a chael pobl debyg i'r bobl oedd yn y ffilm wreiddiol gymryd rhan. Deallir fod Archif Genedlaethol Sgrin a Sain Cymru newydd ei hadfer i'w chyflwr gwreiddiol. Do! Cafwyd noson wych gyda Ceri yn olrhain hanes yr hen chwarelwyr gan fod ei thad wedi body n chwarelwr. Felly roedd ganddi hi dipyn o hanes i ddweud wrthym. Hefyd i wneud y noson yn fwy diddorol death Elizabeth Wyn o amgylch a hufen ia a 'Pop Corn' i bawb. Cafwyd hwyl gan bawb gan i lawer ohonom fwynhau a chofio a chael blas yr hen amser gynt pan oeddwn yn arfer mynd i'r sinema.

Diolchwyd i'n llywydd gan Mair Evans ac yna diweddwyd y noson gyda chwpanaid a sgwrs a thynnwyd y raffl fisol.

### Eisteddfod Penrhyn-coch 2010

Cyhoeddodd Mairwen Jones, Ysgrifennydd yr Eisteddfod mai Llywyddion 2010 fydd Gwyddno Dafydd (Nos Wener), Karen Roberts (Prynhawn Sadwrn) a Dai Mason (Nos Sadwrn. Dyddiad yr Eisteddfod fydd 23-24 Ebrill 2010.

### Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Sioned a Rob, 101A Ger-y-llan, ar enedigaeth bachgen bach - Osian Tudur Mills ar y 19eg o Dachwedd.

### Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Rhys Dobson,Glan Ceulan, am ennill Cwpan Pencampwriaeth Ail Reng Cynghrair Dyfed am chwarae golff.

# ABER-FFRWD A CWMRHEIDOL

### Urdd y Benywod

Nos Lun Tachwedd30 cawsom noswaith o Gaws a Gwin yng nghwmni Eurgain James o Siop Bronnant. 'Roedd y bwrdd yn llawn danteithion a chawsom hanes sefydlu y cwmnïoedd caws Cymreig.Cawsom hefyd gyfle i flasu nifer o wahanol gawsiau ynghyd a gwinoedd o wahanol wledydd yr oedd teulu Maloney Maes y Glyn wedi eu darparu. Cafwyd llawer o flasu a sgwrsio ac mi 'roedd pawb wedi mwynhau gweld teulu ifanc Siop Bronnant yn llwyddo i wneud busnes yng nghefn gwlad. Hir y parhaed. Diolchodd Carol Marshall i bawb am noson lwyddiannus iawn.

### Colled

Trist iawn yw gorfod cofio am Irfon Meredith, Penbontbren, a fu farw yn ei gartref dydd Sadwrn 21ain o Dachwedd yn 81 oed. Cafodd ei eni a'i fagu yn Ystumtuen ac yna symud i Gapel Bangor ac yna ar ol salwch a orfododd iddo golli rhan o'i droed symudodd i Gwmrheidol.

Bu yn ymgymryd â gwahanol swyddi gan orffen ei yrfa yn borthor yn y Llyfrgell Genedlaethol lle yr oedd yn uchel iawn ei barch. 'Roedd Irfon yn gymeriad hoffus ond yn annibynnol iawn ond eto yn barod iawn ei gymwynas. 'Roedd yn hoff iawn o deithio yn ei gar a gwelwyd ef yn aml iawn yn yr haf yn mwynhau y golygfeydd omgylch Ystumtuen a Chwmrheidol. Bu nifer o'i deulu,cymdogion a ffrindiau yn ofalus iawn ohono yn ystod y misoedd olaf ac mae ffordd y Cwm yn wag iawn heb yr hen gar bach glas a oedd yn mynd yr un amser bob dydd. Estynnwn ein cydymdeilad dwysaf â'r teulu i gyd.

# CYNGOR CYMUNED TIRYMYNACH

Oherwydd amgylchiadau arbennig ni chynhaliwyd cyfarfod Tachwedd tan nos Iau 3ydd Rhagfyr. Yn absenoldeb y cadeirydd a'r is-gadeirydd cymerwyd y gadair gan y Cyng. Gwynant Phillips.

Cadarnhawyd mai dyddiad nesaf cyfarfod PACT fydd 17eg Rhagfyr am 7pm yn Neuadd Rhydypennau. Adroddwyd bod ochrau concrid meinciau i'w cael yn iard Cyngor Sir Ceredigion a bod croeso i'r Cyngor hwn eu cymryd. Defnyddir ystyllod o un main sbâr i atgyweirio rhai eraill. Penderfynwyd anghofio mater codi cysgodfan bws ger Ysgol Rhydypennau yn bennaf oll oherwydd y gost, neu'r gost o ddatgysylltu un yn Aberystwyth a'i osod yn ei safle. Hefyd cost fiwrocrataidd y cynllunio a chael trwydded cyn cychwyn. Mae pob asiantaeth heddiw yn godro'r geiniog olaf oddi wrth y cyhoedd a'r cynghorau cymuned.

Deallir bod deiseb o gwmpas yn gwrthwynebu ymdrech Urdd Gobaith Cymru i gael trwydded alcohol yn eu Heisteddfod Genedlaethol yng Ngheredigion. Penderfynwyd anfon llythyr at yr Urdd a'r adran sy'n trefnu trwyddedi alcohol yng Ngheredigion ym mynegi pryder y Cyngor o weld alcohol yn cael ei gyflwyno yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Sir Paul Hinge bod astudiaeth i'w gwneud dros y ddwy flynedd nesaf ar rodfeydd yn yr ardal a phont y rheilffordd ar ffordd Clarach gyda golwg ar gael pont newydd bwrpasol. Dywedodd ei fod wedi anfon llythyr cryf at uwch arolygydd yr Heddlu yn cwyno am y parcio ar y fynedfa i'r Lôn Groes a galw am gyfarfod ar y safle. Gwnaeth apêl ar ran CAB Aberystwyth am gymorth ariannol pan ddaw'r adeg i ddosbarthu cymorth i elusennau.


Er gwybodaeth, datganwyd bod datblygiad preswyl ar dir ar Clos Corwen, Llangorwen wedi ei wrthod, a bod cais am adnewyddu ac ehangu dormer blaen yn 106 Bryncastell wedi ei ganiatáu. Ni chafwyd dim ceisiadau newydd.

Derbyniwyd gohebiaeth oddi wrth Gyngor Sir Ceredigion parthed safleoedd datblygu posibl yn lleol, ac eto grwpiau aneddiadau.

Yn ariannol, talwyd bil am dorri porfa yn y gymuned, ac yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 28 Ionawr trafodir y gyllideb.

Roedd cwyno bod biniau sbwriel heb eu gwacau (ar wahân i waith yr adar) yn y cylch - hyn yn golygu bod llawer o fudreddwch o gwmpas y lle. Mae tipyn o gonsyrn bod rhagor o garafannau statig yn cael eu gadael ar dir y rheilffordd ger Werndeg yn Bow Street, a hynny heb ganiatâd cynllunio. Unwaith eto gofynnir i'r swyddog gorfodaeth ymyrryd.

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924



HEIRIO JONES HIRE
• Mini Digger
1½ ton - 3 ton iw gael
• Dumpers
• Trailers
CASGLWR SGRAP
YN EISIAU TRACTORAU A PHEIRIANNAU FFERM
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar 01970 820 934 neu 07967 654720

Y TINCER


ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627



M & D PLUMBERS
Gwaith plymer & gwresogi
Prisiau Cymharol;
Gostyngiad i Bensiynwyr;
Yswiriant llawn;
Cysylltwch â ni yn gyntaf ar
01974 282624
07773978352

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

GWYNFOR DAVIES ADEILADYDD



Manteg
Bow Street
Ffôn 828531

Defnydd Melanie
The Old Exchange Stores
Capel Bangor
(01970) 880 811
melaniefabrics@btopenworld.com
www.melaniefabrics.co.uk
Arbenigwyr mewn cwiltio a chlytwaith
Dosbarthiadau nos a dydd

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
E W R
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

Gwasanaeth CYFIEITHU
Linda Griffiths
Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454



linda.griffiths01@btinternet.com

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

## COLOFN MRS JONES

'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd' meddai'r hen rigwm gan ddirwyn y peth yn ôl i'w bendraw eithaf bod Duw y tu ôl i'r cyfan. A mi ddeuaf yn ôl at hyn ym mharagraff olaf y golofn hon.

Ydi, mae hi'n Nadolig unwaith eto er na wn yn iawn i ba le yr aeth y flwyddyn mor sydyn, y mae holl arwyddion y Nadolig i'w gweld a llawer o dai'r pentref yn glyd dan eu goleuadau a'r nosweithiau yn fwrlwm o gyngherddau a phartion. Ac mae'r cwynion traddodiadol bod y Nadolig yn rhy seciwlar a chostus wedi cychwyn hefyd ond pa mor wir ydi'r cwynion rheini, dybed?

Gadewch inni gychwyn gyda'r gost. Mae'r Nadolig yn costio yr hyn a fynnwn ni iddo gostio ond y gwir yw fod pob un ohonom ar gyfartaledd yn mynd i wario £ 784 o bunnoedd ar yr Ðyl eleni. Gall hyn gael ei roi mewn ffyrdd arall, mae 40% y cant ohonom yn mynd i wario mwy na wariasom ni llynedd a 25% ohonom yn mynd i wario dros fil o bunnoedd. Ar pwy y mae'r bai am hyn? A oes pobl yn prowla'r siopau yn ein gorfodi i wario yn wirion? Yntau ai ni sydd yn methu ymddisgyblu? Y ni sydd yn methu ymddisgyblu, coelio, ac yn methu a ffrwyno ein hunain. Y mae'n bosibl dewis a dethol a defnyddio profiad wrth farchnata ar gyfer y Nadolig. Un peth pwysig iawn i'w gofio yw mai gÐyl gymharol fer ydyw, fe fydd y siopau yn ailagor yn fuan ar ei hôl, does dim rhaid llenwi trolÐau lawer fel petaech yn paratoi ar gyfer hirlwm a newyn hyd yn oed os oes gennych deulu mawr ac ymwelwyr niferus a'r rheiny ar eu cythlwng! Yn ail, does dim rhaid prynu pethau dim ond am eu bod yn rhan draddodiadol o fwyd y dathlu. Ni fyddaf i eleni yn prynu saws mafon cochion na chnau rhost a hynny oherwydd nad wyf yn eu bwyta, felly pam eu prynu yn y lle cyntaf? Ond fe fyddaf yn ymorol am gacen ac am rolyn Nadoligaidd siocled oherwydd fe'i bwyteir.

Rhan ddrutaf y cyfnod yw'r anrhegion, wrth gwrs, ond unwaith eto, nid oes raid mynd dros ben llestri. Gall dewis anrheg yn ddoeth yn ôl diddordebau y derbynnydd fod yn rhatach na phrynu rhywbeth arferol fel sannau neu hancesi poced a gall potiau bach o jam a siytni cartref fod yn rhatach ac yn fwy blasus na rhai siop. Neu beth am osod cyllideb i chi eich hun a'ch teulu, neb i roi na derbyn dim sydd yn werth mwy na deg punt, dyweder.

Y mae'n ystrydeb dweud nad arian sydd yn creu hapusrwydd. Y mae serch hynny, yn ddywediad cwbl wir ond fe'n harweinir ni i feddwl fod yn rhaid inni wario ar fwydydd ac anrhegion am bod pawb yn gwneud ac am fod gwario yn mynd i sicrhau hapusrwydd a llwyddiant yr ŵyl ei hun i ni. Fe'n hudir i gredu fod prynu yr hyn a hysbysebir yn basport i les a bodlonrwydd. Fe'n hudir i hyn gan ofn sylfaenol pob un ohonom yr ystyrir unai yn gybyddion direswm neu yn dlawd os gwrthodwn ac mae'n well gennym beryglu ein lles economaidd na hynny sydd yn agwedd cwbl afresymegol.

Ac y mae'n agwedd sydd yn deillio o'r ffordd yr ydym wedi masnachu'r Nadolig, wedi mynd i fesur ei bris heb weld na gwerthfawrogi ei werth. Ac er mor hawdd beio'r masnachwyr am hyn, y gwir plaen ydi na lwyddasai'r rheiny lastwreiddio geni'r Iesu heb ein cymorth ni.Y mae perthynas masnachwyr â'u cynulleidfa yn od gyda'r naill ochr yn arwain ac yn ysgogi'r llall fel na ellir yn iawn sylweddoli pwy sydd fwyaf ar fai.

Ond mi ryden ninnau yn seciwlareiddio'r Iesu weithiau heb wario dim, bob tro, er enghraifft, y cyfeiriwn ato fel mab y saer neu y credwn mai baban bach yn unig yw'r baban a anwyd inni gan anghofio mai hwn yw'r gair a wnaethpwyd yn gnawd. Mae'n ymddangos i mi weithiau mai rhyw Gristnogaeth neis neis oes gennym, yn canolbwyntio ar y pethau da ond yn anghofio'r syniadau anodd am pwy yw Crist mewn difrif ac am ei farwolaeth ar y Groes i'n hachub o'n pechod - yn sicr ddigon, fe rydym yn anghofio ei ail ddyfodiad i'r ddaear mewn rhwysg a gogoniant i farnu y rhai a'i collfarnodd ac i achub gwir aelodau ei eglwys.

Cofiwch chi, nid oes dim o'i le mewn mwynhau pethau da'r byd hwn yn ddoeth ac yn synhwyrol ac yn gymesur a'n hadnoddau ni ein hunain.'Y gormod', fel y dywedodd yr hen Dwm o'r Nant, 'ydi'r drwg'. Nid oes dim o'i le mewn dathlu dyfodiad Duw i'n byd ar ffurf baban gyda phethau'r byd hwn a'u mwynhau. ein drwg ni yw mynd i feddwl fod y Nadolig yn bodoli er mwyn y pethau hyn. Ond gwir bwrpas y Nadolig yw ein hatgoffa o fawredd cariad Duw atom a maint ei ymddiriedaeth ynom ei fod yn rhoi Ei Fab inni,ein Brenin a'n Barnwr,ar ffurf baban. 'Tu ôl i'r dorth mae'r blawd' meddai'r rhigwm, wel, y tu ôl i'r crud y mae croes baban y crud, y baban a dyfodd i hawlio ei groes er ein glanhau o'n pechod. Wrth inni ddotio ato a dathlu ei eni, gadewch i ni hefyd addo i weld ei werth a'i addoli.

A Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda i bob un ohonoch.

Hoffai Meirion a minnau ddiolch i chi i gyd am eich dymuniadau da inni yn ystod ei waeledd diweddar. Diolch yn fawr i chi i gyd.

## COLOFNYDD Y MIS



**Jodi Bennett**

### Gwersi Cymraeg

"Os wyt am fynd i'r toiled bydd rhaid i ti ofyn yn Gymraeg" — geiriau Miss Sian yn atseinio'n glir yn fy nghlust hyd at heddiw. Dwi'n cofio'r un frawddeg yn cael ei dweud wrthyf yn Ffrangeg flynyddoedd yn hwyrach — doeddwn i ddim mewn sefyllfa well yn 14 oed nag oeddwn yn 5 mlwydd oed yn orffwyll am y toiled a dim syniad sut i ofyn yn yr ieithoedd dieithr yma.

Mae'r ffaith fy mod yn medru cofio'r linell Gymraeg, ond nid yr un Ffrangeg (esq que... esq que rhywbeth) yn adlewyrchu'r ffaith fod yr iaith Gymraeg wedi aros gyda fi o'r diwrnod symudais i Aberystwyth a chychwyn yn Ysgol Rhydypennau er mwyn dysgu Cymraeg.

Ar ôl cyrraedd oedran lle oedd yn dderbyniol i mi fynd i'r toiled, a neud tipyn o bethau eraill, heb ganiatâd symudais i Gaerdydd i gychwyn swydd llawn amser gyda Opera Cenedlaethol Cymru ychydig dros 18 mis yn ôl. Mae Caerdydd yn "home from home" i mi. Ar wahân i'r holl wynebau cyfarwydd ymhlith y bobl sydd wedi symud yma i fyw neu wedi dod i wneud diwrnod o siopa, rwy'n cael fy nharo'n ddyddiol gyda chymaint o frwdfrydedd a chefnogaeth sydd am yr iaith yma yng Nghaerdydd, weithiau mwy hyd yn oed na pan oeddwn dal i fyw ym Mhenrhyn-coch.

Dwi'n gweithio ym Mae Caerdydd ac mae'r iaith Gymraeg i'w gweld ymhobman — o'r arysgrif "Creu Gwir Fel Gwydr O Ffwrnais Awen" ar flaen Canolfan Mileniwm Cymru, i'r "Twll yn y wal" tu allan i NatWest. Ychydig wythnosau yn ôl buais i wylio fy ngêm rygbi cyntaf yn Stadiwm Mileniwm Cymru a chefais fy synnu'n llwyr (mewn ffordd dda!) gan sawl un o'r 77,000 oedd yn medru canu'r anthem Gymraeg gyda'r un egni a chystadleuwyr yn yr Eisteddfod. Fi yw'r unig berson sydd yn medru siarad Cymraeg yn rhugl ymhlith staff swyddfeydd Opera Cenedlaethol Cymru — mae hynny'n beth rhyfeddol i mi, i gychwyn fel yr unig berson nad oedd yn siarad Cymraeg 20 mlynedd yn ôl. Wedi dweud hynny, efallai synnwch chi i glywed fod sawl person yn y cwmni yn cymryd gwersi Cymraeg amser cinio, ac o leiaf hanner o'r bobl yna yn dod o Loegr. Mae yna frwdrydedd am yr iaith yma hyd yn oed i'r rhai nad sy'n dod o Gymru!

Mae'r iaith wedi bod o fantais i mi mewn sawl ffordd ... mae'n braf peidio gwisgo offer cyfieithu er mwyn deall siaradwyr mewn cynadleddau; mae'n hwyl i ddefnyddio'r iaith fel cod ddirgel (sut bynnag, y tro diwethaf i mi wneud gyda fy chwaer yn Efrog Newydd roedd y teulu tu ôl i ni yn y ciw hefyd yn siarad Cymraeg felly dyw e ddim wastad yn gweithio); ac mae'n ddifyr i dderbyn pob neges ar yr heolydd ddwywaith!

Mae'r gwersi Cymraeg yn parhau braidd — dwi'n cael fy mhrofi nawr ac yn y man pan fydd cydweithwyr yn gofyn i mi gyfieithu pethau iddynt yn amrywio o neges mewn cerdyn i negus destun ar ffôn symudol. Weithiau dwi'n cael trafferth gyda'r pethau mwyaf syml — mae'n anghredadwy cymaint o eiriau sydd yn dal gen i i'w ddysgu ...

**Y mis nesaf**: Iona Davies

## Côr Meibion Melindwr



Dyma lun o Gôr Meibion Melindwr wedi ei dynnu yn 1960. Diolch i Dei a Nansi Evans, Ty-poeth am gael benthyg y gwreiddiol, a diolch i Ian Sant, Goginan am ei atgynhyrchu. Roedd y Côr ar yr adeg yma o dan arweiniad Mr Emlyn Felix, ac wedi bod felly ers dwy flynedd ynghynt. Yn ôl y son, roedd y côr wedi ei gychwyn tua 1950 gan Mr Tom Williams, Cefn-llidiart, gwr a oedd yn byrlymu ynglŷn â chanu ac yntau oedd ei harweinydd. Diolch i Dei Evans, Alun Jenkins a Dei Griffiths o Aberystwyth am eu cynhorthwy efo'r enwau. Trist dweud mai dim ond saith ohonynt sydd wedi goroesi. Diolch i Fred Williams hefyd am ei gyfraniad. Erwyd Howells

Rhes gefn: Glyn Vaughan, Edgar Jones, Byron Howells, John Chamberlain, Will Richards, Tom Williams, Danny Evans, Jack Stevens, Glyn Jones.

Rhes ganol: Goronwy Owen, John Moses Evans, Edward Ellis, Henry Jones, Edwin Jones, Alun Jenkins, Islwyn Owen, Maldwyn Pugh, Jack Evans, Tom Ellis, John Owen, Dennis Benjamin, Richard Jones.

Rhes flaen: Dei Griffiths, Jim Fischer-Davies, David Benjamin Davies, Danny Richards, Idris Davies, Dei Charles Evans, Emlyn Felix, Mair Jones, Jim Owen Morgan, Owen Jones, Sam Raftree, Tomi Davies.

## Myfyrdod y Nadolig

Amser hyn o'r flwyddyn maent yn gweld y bwysigrwydd o gael golau i'n helpu i gerdded yn ddiogel yn y tywyllwch.Daeth ein harglwydd Iesu Grist i'r byd i rhoi golau i ni yn ein bywydau.
Mae'r Nadolig yn amser prysur iawn ac yn ein holl waith o baratoi ar gyfer yr wyl mae'n bwysig bd ni'n cadw'r Iesu yng nghanol ein paratoad, ac yn ein meddyliau. Fel dywedodd rhywun os nad ydynt yn gwneud hyn, mae'n debyg i rhywun yn paratoi parti pen-blwydd ac yn yr holl waith o baratoi yn anghofio rhoi gwahoddiad i'r person oedd yn dathlu pen-blwydd.
Maent yn hffi rhoi a derbyn anrhegion amser y Nadolig a cofiwn am y rhodd mwyaf pwysig i ni,yw bod Duw y Tad wedi rhoi ei unig fab ein Hargwlwydd Iesu Grist i'r byd, a bod Duw wedi dod i'r byd mewn cnawd yn y baban bach yn y preseb.
Dyna'r rheswm i fod yn llawen dros y Nadolig, aphob amser gan gofio geirie'r carol adnabyddus
'A bywyd bydd i ddyn byth mwy
Am fod Nadolig ddydd'
Nadolig Llawen i bawb
Y Parchg Cecelia Charles, Y Borth

Y TINCER

MORRIS & READ
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH
TRWSIO . TIWNIO
M.O.T. a.y.b
Ar agor
8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
9a.m. - 1p.m. Sadwrn
GAREJ CWRT
PENRHYN-COCH
ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth
820 090

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

## CYNGOR CYMUNED TREFEURIG

Cyfarfu'r Cyngor Cymuned nos Fawrth, 17 Tachwedd, yn Neuadd y Penrhyn gyda'r Cadeirydd, Richard Owen, yn llywyddu. Roedd Edwina Davies, Gwenan Price, Kari Walker, Dafydd Sheppard, Mervyn Hughes, Trefor Davies, Melvyn Evans a Dai Rees Morgan yn bresennol ynghyd â'r Clerc; derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Daniel Jones a Tegwyn Lewis.

Cytunwyd i longyfarch pwyllgor PATRASA, cymdeithas cae chwarae Penrhyn-coch, ar y gwaith a wnaed yn y cae yn ddiweddar. Roedd Elin Jones A.C. wedi ysgrifennu at y Cyngor yn rhoi manylion am gynllun newydd oedd yn cael ei dreialu gan BT ar gyfer gwella darpariaeth band eang mewn ardaloedd oedd yn bell o gyfnewidfa ffôn; penderfynwyd anfon yr wybodaeth ymlaen i Dr. Clive King. Trafodwyd y gwasanaeth a gynhaliwyd ar Sul y Cofio, a diolchwyd i bawb a oedd wedi cynorthwyo gyda'r digwyddiad.

Adroddodd y Cadeirydd ar y Cynllun Iaith yr oedd yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus ei fabwysiadu. Roedd o'r farn fod yr un a awgrymwyd gan Fwrdd yr Iaith yn addas ar gyfer Cyngor Trefeurig, a chytunwyd i'w fabwysiadu. Ar 1 Tachwedd, wythnos cyn Sul y Cofio, roedd niwed wedi'i achosi i'r reiliau o gwmpas y Gofeb pan aeth cerbyd i wrthdrawiad â hwy. Roedd enw dreifer y cerbyd yn wybyddus ac roedd cwmni yswiriant y Cyngor wedi cael eu hysbysu. Disgwylid amcangyfrif o gost trin y difrod. Fe gafwyd cynnig i symud y gofeb i fan cyfagos ond ni chariwyd y cynnig. Penderfynwyd gweld a oedd unrhyw beth y gellid ei wneud i amddiffyn y safle yn well.

Roedd Kari Walker wedi bod mewn cyfarfod Airtricity yn Nhal-y-bont yn trafod sut y gellid dosbarthu arian i'r gwahanol gymunedau pe bai'r cynllun fferm wynt yn mynd yn ei flaen. Roedd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd wedi bod mewn sesiwn hyfforddi yn Aberaeron, a chafwyd adroddiad ar hynny.

Daethai dogfennau o'r Cyngor Sir yn gofyn barn am rai agweddau o'r Cynllun Datblygu Lleol. Roedd y Cyngor Sir yn ystyried cynnwys Bont-goch fel un o'r ardaloedd i'w cysylltu â Phenrhyn-coch at ddibenion y Cynllun. Nid oedd gan y Cyngor farn gref ar y mater, ac roedd yn credu y dylai'r Cyngor Sir ymgynghori â thrigolion Bont-goch i weld beth oedd eu barn hwy. Roedd mapiau ar gael yn dangos beth oedd y safleoedd datblygu posib o gwmpas Penrhyn-coch, a sut yr oedd y Cyngor Sir yn eu rhoi o ran trefn blaenoriaeth. Roedd y Cyngor o'r farn y dylid rhoi'r flaenoriaeth i ddatblygiad ar ochr orllewinol y pentref ar y ffordd i mewn o Aberystwyth; byddai hynny'n golygu llai o draffig drwy'r pentref lle'r oedd y ffordd mewn mannau yn gul iawn, a dim palmant i'w gael mewn rhai mannau ychwaith.

Roedd yr archwiliad ariannol allanol ar gyfer 2008 / 09 wedi'i orffen, ac ni chodwyd unrhyw faterion gan yr archwilwyr. Llongyfarchwyd y Clerc ar ei gwaith manwl a threfnus eleni eto gyda'r cyfrifon. Ystyriwyd y cais cynllunio canlynol: tŷ ar blot 2 ar y tir gyferbyn â Horeb. Nid oedd gwrthwynebiad ond mynegwyd y farn fod hwn yn dŷ mawr ar safle lle y byddai tai fforddiadwy yn ogystal. Gellir gweld y cofnodion llawn ar www.trefeurig.org.



**CYSYLLTWCH Â NI**
ytincer@googlemail.com

Blodau i bob achlysur

**Blodau'r Bedol**

Priodasau . Pen blwydd .
Genedigaeth . Angladdau .
Blodau i Eglwysi a
Chapeli neu unrhyw achlysur

**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**

Eich cigydd lleol

Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**

7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn, Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050

Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion
Ar agor saith niwrnod yr wythnos
Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)
siop grefft a choffi pennau

LLETY PARC

Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas

Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# YSGOL RHYDYPENNAU



Y plant yn cael eu cyfweld ar ddiwrnod Plant Mewn Angen.



Gwerthu nwyddau yn ystod Plant Mewn Angen.



Mr Eifion Collins yn egluro un o weithgareddau XL Wales.




Y Sgwad Hoci yn derbyn y cit newydd.

## Noson Agored

Ar y 9fed o Dachwedd, cynhaliwyd noson agored i flynyddoedd 1-6. Cafodd y rhieni gyfle i weld gwaith y plant ac i drafod cynnydd a datblygiad y tymor.

## Ffair Lyfrau

Daeth yr amser eto i gynnal Ffair Lyfrau'r ysgol. Mae'r ffair yn gyfle gwych i'r plant a'r rhieni ddewis a dethol pob math o lyfrau difyr. Hoffai'r Ysgol ddiolch i siop Inc am eu cydweithrediad.

## Plant mewn angen

Roedd hi'n ddiwrnod Plant mewn angen ar yr 20fed o Dachwedd. Bu'r Cyngor Ysgol yn brysur yn trefnu nifer o weithgareddau difyr er mwyn codi arian i'r elusen. Ar ddiwedd y dydd casglwyd £200. Ardderchog!

## Ymweliadau XLWales

Ar y 24ain a'r 25ain o Dachwedd cafwyd ymweliad arall gan Mr Eifion Collins, XL Wales. Mae Mr Collins yn ymweld â'r ysgol ddwywaith y flwyddyn er mwyn datblygu sgiliau gwyddonol a thechnolegol y plant ymhellach. Mae'r plant yn mwynhau cwblhau y tasgau yn fawr iawn ac y mae gweithgareddau Mr Collins yn parhau i fod yn hynod o ddifyr.

## Panto

Aeth plant blynyddoedd 1 i 6 i Ganolfan y Celfyddydau ar y 27ain o Dachwedd i fwynhau'r panto blynyddol. 'Barti Ddu' oedd enw'r panto eleni, a chafodd y plant hwyl yn gwylio'r miri ar y llwyfan.

## Chwaraeon


Cyflwynwyd cit hoci newydd i'r sgwad yn ddiweddar. Diolch i'r noddwr; Riverside Caravan Park, Llandre.
Oherwydd tywydd gwlyb yr wythnosau diwethaf; prin iawn fu'r cyfleon o chwarae pêl-droed a phêl-rwyd. Ond parhau mae'r gêmau hoci.

Dyma ganlyniadau diweddar y ddau dîm hoci.
Rhyd. A — 8; Ysgol Gymraeg A — 0.
Rhyd. B — 8; Ysgol Gymraeg B — 0.
Rhyd. A — 8; Penrhyn-coch A — 0.
Rhyd. B — 5; Penrhyn-coch B —0.
Rhyd. A — 4; Plas-crug A —1;
Rhyd. A — 3; Padarn Sant A— 1.
Rhyd. B — 5; Plas-crug B — 0.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau cliciwch ar http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk

## Caru Nodyn

Gan fod blwyddyn 5 yn astudio'r nofel Caru Nodyn gan Mr Gareth William Jones, yn ystod y tymor hwn; gwahoddwyd yr awdur lleol i'r dosbarth i siarad am y nofel a chynnig cyfle i'r plant i drafod a holi cwestiynau am ddigwyddiadau a chymeriadau'r llyfr. Cafwyd sesiwn ddifyr iawn. Hoffai'r ysgol ddiolch i Gareth am ei barodrwydd i ymweld â'r ysgol.



Yr awdur Gareth Jones yn trafod ei nofel Caru Nodyn gyda blwyddyn 5.

# YSGOL PEN-LLWYN

### Clybiau

Dechreuodd Clwb Hwyl a Chlwb yr Urdd y tymor hwn. Diolch i Ann, Heulwen ac Aeronwy am roi eu hamser i ddifyrru ac i arwain y plant yn y gwaith pwysig hwn. Daeth Mrs J Bowen i ddawnsio llinell gyda'r plant yng nghlwb yr Urdd. Rwy'n siÐr fod pawb wedi cysgu'n drwm y noson honno. Bu Mrs Emma Davies yn gwneud chwaraeon dro arall. Diolch i'r ddwy am roi o'u hamser.

### Croeso

Croeso cynnes i Miss Bethan Thomas o Gasnewydd sydd yma gyda ni yn fyfyriwr yn Nosbarth 2 a hynny eto am gyfnod ar ôl y Nadolig.

### Plant mewn angen

Gwisgodd y plant fel môr-ladron ar ddiwrnod Plant mewn angen.
Bl 5 a 6 — 1af — Gethin, 2il — Manon
Bl 3 a 4 — 1af — Haf, 2il — Rebecca
Dosb 1 — 1af — Blake, 2il — Llyr, 3ydd- Morgan
Enillodd Mathias am ddylunio bandana
Casglwyd swm sylweddol at Blant mewn angen.



### Pantomeim

Cafodd y plant bnawn llawn hwyl a sbri yn y pantomeim am y môr-leidr Barti Ddu. Gwisgodd pob plenty fel môr-leidr er mwyn body n rhan o griw'r llong.

### Gwobr

Clod mawr i'r ysgol oedd bod Alaw Lois Evans wedi llwyddo yn y gystadleuaeth ysgrifennu barddoniaeth am ddiogelwch adeg y Nadolig. Bydd Alaw yn un o ddau blentyn yn rhoi goleuadau tref Aberystwyth ymlaen ar 4ydd o Ragfyr.

### Arad Goch

Daeth cwmni drama Arad Goch i'r ysgol i gyflwyno perfformiad 'Gair am Air' i ddisgyblion dosbarth 1. Daeth Ysgol Capel Seion a Syr John Rhys yma i rannu'r profiad gyda ni. Diolch i Arad Goch am eu perfformiad hwyliog a graenus.





RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

CTE
C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013

ytincer@googlemail.com

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

Posh Paws
Salon cŵn
Torri cŵn i fri safonol
Goginan
Kath 01970 880988
07974677458

JONES JET WASH
Golchi Arbenigol
• Peintio Shediau a lloriau
• Golchi Tai a Shediau fferm (toeon, gwteru, fasias, tai gwydr a.y.yb)
•Golchi palmentydd a hewlydd
Am fwy o wybodaeth ffoniwch Trefor ar
01970 820 934 neu
07967 654720

# TASG Y TINCER



Gronw Fychan Downes

Diolch i bawb fu'n lliwio'r llun o'r morleidr efo'i drysor y mis diwethaf. Dyma pwy fu'n brysur: Elisa Martin, 79 Ger-y-llan, Penrhyn-coch; Gronw Fychan Downes, Glanrafon, Penrhyn-coch; Saran Dafydd, 13 Maes-y-garn, Bow Street; Steffan Huxtable, Y Ddôl Fach, Penrhyn-coch; Teleri Morgan, Ger-y-nant, Dolau. Er bod eich lluniau i gyd yn dda iawn, ti Gronw sy'n cael y wobr y tro hwn. Roeddwn yn hoffi sgarff coch a smotiau gwyrdd dy forleidr!

Mae'n siwr eich bod i gyd yn edrych ymlaen yn fawr at y Nadolig. Rwy' wrth fy modd efo'r ŵyl, ac yn meddwl bod y goleuadau a'r holl addurniadau yn werth eu gweld! Does fawr o amynedd gen i efo'r siopa a'r prysurdeb, ond rwy'n mwynhau lapio anrhegion, a derbyn rhai fy hun, wrth gwrs!

Ydech chi'n hoffi canu carolau? Mae'n siwr eich bod wrthi'n dysgu sawl un ar gyfer cyngerdd Nadolig yr ysgol, eglwys neu'r capel. Ydech chi'n canu "Tawel nos":

Tawel nos dros y byd,
Sanctaidd nos gylch y crud;
Gwylion dirion yr oedd addfwyn ddau,
Faban Duw gyda'r llygaid bach cau,
Iesu T'wysog ein hedd.

Ond yw hi'n garol hyfryd, ond ydech chi'n gyfarwydd â'r stori amdani? Yn ôl yr hanes, carol o wlad Awstria yw hi. Flynyddoedd maith yn ôl, ar noswyl Nadolig yn 1818, roedd organ eglwys pentref Oberndorf wedi torri, a chrwydrai'r ficer, Josef Mohr, o amgylch y pentref yn drist, am na fyddai modd clywed sŵn hyfryd yr organ ar ddiwrnod Nadolig. Gwyddai Josef y dylai eglwys y pentref fod yn llawn canu a dathlu, ac wrth iddo syllu'n ddigalon ar yr eira dan ei draed, gwelodd Josef rywbeth rhyfedd iawn, sef geiriau cân yn ffurfio yn yr eira! Ysgrifenodd y geiriau'n frysiog ar ddarn o bapur, a rhuthro i weld organydd y pentref, Franz Gruber, i ddweud wrtho beth oedd wedi digwydd. Wel, roedden nhw'n eiriau arbennig. Efallai fod rhai ohonoch wedi eu canu mewn Almaeneg: "Stille Nacht, Heilige Nacht"

Gyda'r ddau ohonynt yn llawn cyffro, cyfansoddodd Gruber alaw syml i'r geiriau, ond sut oedden nhw'n mynd i gael pawb i ganu, heb yr organ? Cafodd Gruber syniad! Beth am chwarae'r gitâr? Ac felly, ar noswyl Nadolig yn 1818 mewn pentref bychan yn Awstria y canwyd un o'r carolau enwocaf, "Tawel nos" am y tro cyntaf, a hynny ar y gitâr! Efallai yr hoffech edrych ar wefan amgueddfa 'Tawel Nos':

http://members.aon.at/f.x.gruber-museum-arnsdorf/indexe.htm

Beth am liwio'r llun o'r plant yn canu carolau? Tybed beth yw lliwiau eu gwisgoedd? Mae'n nhw'n edrych yn ddigon oer, ond yn cael amser da. Fyddwch chi'n mynd o amgylch eich pentref yn canu carolau eleni?

Nadolig llawen iawn i chi gyd, dymuniadau gorau dros yr ŵyl. Anfonwch eich gwaith i'r cyfeiriad arferol (46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE) erbyn dydd Calan (Ionawr 1af). Ta ta tan toc!



Enw

Cyfeiriad

Oed

Rhif ffôn

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
Cinio Dydd Sul
Prydau Bar
Partïon
Bwydlen Bwyty
Adloniant
Ar agor o 5:30 p.m. nosweithiau Iau a Gwener am brydiau teulol

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

GOLCHDY MAES-Y-MÔR
Stryd y Baddon, Aberystwyth
Ar agor 7 diwrnod
8 y bore - 9 yr hwyr
Golchdy derbyn arian
Gwasanaeth glanhau duvets plu neu ffibr - yr un diwrnod
Gwasanaeth golchi blancedi, llenni a.y.y.b.
Digon o le parcio
FFÔN 639270

ISSN 0963-925X
Rhif 324 | RHAGFYR 2009